

Rhaglen o weithgareddau i hysbysu Cynllun Cydraddoldeb Sengl Llywodraeth Cynulliad Cymru

**Adroddiad ar y rhaglen o weithgareddau i
hysbysu Cynllun Cydraddoldeb Sengl
Llywodraeth Cynulliad Cymru**

Mawrth 2008

Gwasanaethau ar gyfer bywyd

Rhaglen o weithgareddau i hysbysu Cynllun Cydraddoldeb Sengl Llywodraeth Cynulliad Cymru

Cynnwys

<u>1</u>	<u>Cyflwyniad</u>	8
<u>1.1</u>	<u>Rhaglen</u>	8
<u>1.2</u>	<u>Cyhoeddusrwydd</u>	8
<u>1.3</u>	<u>Ynglŷn â'r ddogfen hon</u>	9
<u>2</u>	<u>Holiaduron</u>	10
<u>2.1</u>	<u>Cyflwyniad</u>	10
<u>2.2</u>	<u>Testunau</u>	10
<u>2.3</u>	<u>Ymatebion</u>	11
<u>2.4</u>	<u>Trosolwg o'r ymatebwyr</u>	11
<u>2.5</u>	<u>Eich bywyd cynnar</u>	16
<u>2.6</u>	<u>Addysg a hyfforddiant</u>	21
<u>2.7</u>	<u>Eich bywyd personol</u>	25
<u>2.8</u>	<u>Eich bywyd gweithio</u>	30
<u>2.9</u>	<u>Yr amgylchedd rydych yn byw ynddo</u>	36
<u>2.10</u>	<u>Cymuned</u>	40
<u>2.11</u>	<u>Safonau cenedlaethol</u>	44
<u>3</u>	<u>Digwyddiadau ymrwymiad</u>	47
<u>3.1</u>	<u>Cyflwyniad</u>	47
<u>3.2</u>	<u>Crynodeb o ddigwyddiadau ymrwymiad</u>	47
<u>4</u>	<u>Grwpiau anodd eu cyrraedd</u>	50
<u>4.1</u>	<u>Crynodeb</u>	50
<u>4.2</u>	<u>Unique (Rhwydwaith Traws Ryweddol)</u>	50
<u>4.3</u>	<u>Grŵp Cymorth Ffoadur Ymofynwyr Noddfa Wrecsam (Wrexham Refugee Asylum Seeker Support Group (WRASSG))</u>	52
<u>5</u>	<u>Astudiaeth achos</u>	55
<u>5.1</u>	<u>Trosolwg o'r Astudiaethau Achos</u>	55
<u>5.2</u>	<u>Astudiaeth Achos 1- Ann yn Aberystwyth</u>	55
<u>5.3</u>	<u>Astudiaeth Achos 2- Robert yn Ynyshir</u>	58
<u>5.4</u>	<u>Astudiaeth Achos 3- Elen yn Rhyl</u>	61
<u>5.5</u>	<u>Astudiaeth Achos 4- Muddassir yng Nghaerdydd</u>	65
<u>5.6</u>	<u>Astudiaeth Achos 5 - Christine yng Ngwent</u>	68
<u>5.7</u>	<u>Astudiaeth Achos 6 - Jo yng Nghaerdydd</u>	70
<u>5.8</u>	<u>Astudiaeth Achos 7- Nicki yn Abertawe</u>	72
<u>5.9</u>	<u>Astudiaeth Achos 8 - Pavithra yng Ngogledd Cymru</u>	75

<u>6</u>	<u>Engbreiffiau o Ymarfer Da</u>	77
<u>7</u>	<u>Trafodaethau a chasgliadau</u>	81
<u>7.1</u>	<u>Trosolwg</u>	81
<u>7.2</u>	<u>Cafeatau</u>	81
<u>7.3</u>	<u>Darganfyddiadau</u>	82
<u>7.4</u>	<u>Argymhellion</u>	83

Atodiadau

<u>Atodiad A: holiadur</u>	85
<u>Atodiad B: Digwyddiadau Ymrwymiad 1 Adroddiad Casnewydd 19eg Tachwedd 2007</u>	94
<u>Atodiad C: Digwyddiadau Ymrwymiad 2 Adroddiad Abertawe 20fed Tachwedd 2007</u>	106
<u>Atodiad D: Digwyddiadau Ymrwymiad 3 Adroddiad Aberystwyth 21ain Tachwedd 2007</u>	119
<u>Atodiad E: Digwyddiadau Ymrwymiad 4 Adroddiad Caernarfon 22ain Tachwedd 2007</u>	130
<u>Atodiad F: Digwyddiadau Ymrwymiad 5 Adroddiad Wrecsam 27ain Tachwedd 2007</u>	141
<u>Atodiad G: Digwyddiadau Ymrwymiad 6 Adroddiad Caerdydd 28ain Tachwedd 2007</u>	152
<u>Atodiad H: Rhestr Cyhoeddusrwydd</u>	165
<u>Atodiad I: Fframwaith Astudiaeth Achos</u>	172

Crynodeb Gweithredol

Cefndir

1. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) yn gweithredu cynllun Cydraddoldeb Sengl yn 2008 a fydd yn cefnogi'r prif ffrydio o bolisi Cymraeg ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth ac iawnderau dynol, ac yn eu gwneud yn integrol yn y ffordd maent yn gwneud busnes ac wedi eu hystyried yn llawn o'r cychwyn mewn creu polisïau a gweithrediad.
2. Roedd LICC wedi comisiynnu Tribal i redeg rhaglen o weithgareddau ymrwymiad gyda hapddalwyr ar draws y llinynnau cydraddoldeb o oed, anabledd, ethnigrwydd, rhyw, hunaniaeth o ran rhywedd, crefydd a chredoau a chyfeiriadedd rhywiol, a fyddai yn hysbysu'r cynllun Cydraddoldeb Sengl. Roedd y rhaglen yma wedi cymryd lle rhwng Hydref 2007 i Chwefror 2008.

Dulliau

3. Roedd y rhaglen yn cynnwys holiadur ar-lein strwythurol (roedd hefyd ar gael drwy gyfryngau eraill) chwe digwyddiad a gynhelir ar draws y wlad, ymrwymiad gyda grwpiau anodd eu cyrraedd ac wyth astudiaeth achos.
4. Roedd y rhaglen yn cyfeirio at ardaloedd o brofiadau positif ac o rwystrau a her ym mywydau cynnar atebwyr, addysg a hyfforddiant, bywyd gwaith, bywyd personol, yr amgylchedd maent yn byw ynddo, a'r gymuned.
5. Roedd cyhoeddusrwydd wedi ei ddanfôn i 260 o gyfundrefnau, ac roedd cyfanswm o 272 cyfundrefn ac senglion wedi ymrwymo gyda'r rhaglen. Roedd ymatebwyr yn hapddalwyr ar draws yr holl llinynnau cydraddoldeb.
6. Roedd yr ymatebion wedi dod wrth 150 o holiaduron gorffenedig, 96 o fynychwyr yn y digwyddiadau ymrwymiad, tri o'r wyth astudiaeth achos. (roedd y pum astudiaeth achos arall wedi eu recriwtio trwy lenwi'r holiadur), a 35 sengllyn o grwpiau anodd eu cyrraedd (amcangyfrifwyd bod 12 ohonynt hefyd wedi llenwi'r holiadur).
7. Dylid ystyried y rhaglen hon o ddigwyddiadau ymgysylltu fel rhan o'r broses o ddatblygu corff o dystiolaeth i gefnogi'r Cynllun Cydraddoldeb Unigol. Fodd bynnag, er i'r rhaglen hon gynnwys ystod eang o randdeiliaid, mae ganddi gyfyngiadau, ac amlygir rhai ohonynt ym Mhwyntiau 17-21. Yn bwysicaf oll, ni ddylid cymryd bod y canfyddiadau a gyflwynir yn yr arolwg yn cynrychioli barn y cyhoedd yng Nghymru yn gyffredinol, nac yn sampl sy'n cynrychioli meysydd cydraddoldeb yng Nghymru. Seiliwyd yr arolwg ar sampl hunan-ddewisedig, nid ar sampl a ddewiswyd ar hap, ac oherwydd y nifer fach a gymerodd ran yn yr arolwg, yn arbennig yn achos grwpiau cydraddoldeb penodol, nid yw'r canfyddiadau yn ddigon cadarn yn ystadegol ac yn hynny o beth ni ddylid eu dehongli felly.

Darganfyddiadau

8. Tra bod y rhan fwyaf o ymatebwyr yn teimlo bod eu mater(ion) yn cael eu cefnogi gan fynediad i addysg a hyfforddiant, yr amgylchedd roeddent yn byw ynddo a gwasanaethau cyhoeddus yn ystod plentyndod, roeddent hefyd wedi

dyfynnu sialensiau penodol o fewn y gymuned, ac wedi amlygu ardaloedd eraill yn eu bywydau personol a allai cael eu cefnogi yn well.

9. Roedd profiadau positif wedi eu hadrodd gan yr ymatebwyr wrth fyned gwasanaethau mewn bywyd cynnar, mewn addysg a hyfforddiant, mewn cefnogi bywyd gwaith, a'r amgylchedd lleol yn gefnogol o'r mater cydraddoldeb. Roedd derbyniad a chefnogaeth amrywiaeth gan lawer o'r cyhoedd cyffredinol wedi ei gymeradwyo.
10. Mae'r enghreifftiau positif yn medru cael eu dangos yma drwy ymateb ac ambell i enghraifft o ymarfer da:
 - "Roeddwn wedi fy magu gydag ysgolion, diogelwch cyhoeddus, iechyd cyhoeddus, egni, ffyrdd ac isadeiledd cyfathrebu da."
 - "Roeddwn wedi cymryd gradd, ni fyddai wedi bod yn bosib heb ystod o wasanaethau iechyd meddyliol sail-cymuned, ac rwyf yn awr yn gweithio i Gyngor Caerdydd, sydd wedi fy narparu i gydag ystod o hyfforddiant sail-gwaith."
 - "Cyflogwr yn rhoi amser hyblyg i mi, ac yn caniatáu amser i deithio gyda chysylltiadau trafnidiaeth wael."
 - "Teulu gydag anableddau dysgu yn rhannu stryd, yn byw yn hapus mewn cymuned glòs."
11. Roedd nifer o enghreifftiau o ymarfer da wedi eu rhoi ar draws yr holl linyrnau cydraddoldeb. Roedd y rhain yn cynnwys: y GIG, gwasanaethau cymdeithasol, ymrwymadau'r cyngor sir at ddiogelwch oedolion, strategaethau i bobl hyn a age matters, y cynllun Mynediad i Waith, cynllun symudedd ceir, trwyddedau am ddim i drafnidiaeth gyhoeddus a deddfwriaeth cydraddoldeb cyffredinol.
12. Roedd grwpiau cefnogi cymuned hefyd wedi eu dyfynnu fel enghreifftiau o ymarfer da, megis y sefydliad Y Gofalwyr Ifanc sy'n galluogi i deuluoedd a gofalwyr i ymuno mewn gweithgareddau cymdeithasol i holl aelodau'r teulu, yn ogystal â darparu cefnogaeth allweddol.
13. Roedd y sialensiau allweddol o'r rhaglen yn gyson yn fras ar draws pob gweithgaredd ac ar draws yr holl linyrnau cydraddoldeb. Sef:
 - Angen am welliannau i a mynediad cyfartal i drafnidiaeth gyhoeddus.
 - Angen i sicrhau mynediad cyfartal i wasanaethau iechyd.
 - Codi ymwybyddiaeth a derbyniad cyhoeddus o'r amrywiaeth a'r anghenion o wahanol linyrnau cydraddoldeb.
14. Roedd rhwystrau a wynebwyd yn gyffredinol wedi eu creu gan ddau factor. Sef y canlyniad o ddeddfwriaeth a'r diffyg ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd.
15. Er enghraifft, oherwydd eu statws cyfreithiol, nid oes gan ymofynwyr noddfa'r hawl i chwilio am waith sy'n talu. Fe allant hefyd gael trafferth myned gofal iechyd a chysiau ESOL (Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill - English as a second language).

16. Mae llinynnau cydraddoldeb eraill, fel anabledd, yn aml yn methu derbyn cyfle cyfartal oherwydd diffyg gwasanaethau cyraeddadwy. Fe all y rhain cynnwys trafnidiaeth gyhoeddus, iechyd, tai, addysg a hyfforddiant.
17. Fe all ddiffyg ymwybyddiaeth a chanfyddiadau o linyn cydraddoldeb gan rhai aelodau o'r cyhoedd hefyd arwain at wahaniaethu drwy alluaeth, hiliaeth a rhywiaeth. Fe all hyn gymryd sawl ffurf, fel ymddygiad nawddoglyd a dieithrio cymdeithasol.

Casgliadau ac Argymhellion

18. Roedd y rhaglen wedi cysylltu yn llwyddiannus gydag ystod eang o hapddalwyr ar draws y llinynnau cydraddoldeb. Roedd pob un o'r mathau o gysylltu wedi derbyn strwythur tebyg er mwyn cipio a gwerthuso gwybodaeth yn gyfartal.
19. Fodd bynnag, roedd cynrychiolaeth yn isel ymysg y grwpiau 18-26 a 75+, ac nid oedd unrhyw gysylltiad llwyddiannus gyda'r gymuned Sipsi.
20. Mi fyddai o fudd i LICC i ystyried darn o waith pellach i geisio cysylltu gyda'r grwpiau a'r llinynnau nad oeddent wedi eu cynrychioli yn llawn yma. Er enghraifft, cymunedau Sipsi, grwpiau oed 18-25 a 75+.
21. Fe allai hyn gynnwys dau weithgaredd bach ar wahân wedi eu targedi i sicrhau bod pob safbwynt yn cael eu cynnwys: un gyda'r hapddalwyr allweddol yn yr ystod oed 18-25; un arall gyda'r hapddalwyr allweddol yn y grŵp oed 75+.
22. Fe allai hefyd bod o fudd i ddilyn cysylltiadau gyda'r hapddalwyr allweddol yn y gymuned Sipsi i ganfod opsiynau. Naill ai mewn digwyddiad sengl, neu mewn cyfres o sesiynau un ac un gyda hapddalwyr allweddol ar ffurf sefydliad cefnogaeth. Fe all hyn, yn ei dro, arwain at adnabod senglion o'r gymuned sydd efallai eisiau cael eu cynnwys.

1 Cyflwyniad

1.1 Rhaglen

- 1.1.1 Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru am i gymaint o bobl ag oedd yn bosib o'r llinynnau cydraddoldeb i gael cyfle i rannu eu profiadau o fyw yng Nghymru, gan gynnwys rhwystrau roeddent wedi eu hwynebu a blaenoriaethau y byddent yn hoffi gweld yn cael eu hannerch yn y Cynllun Cydraddoldeb Sengl a Chynlluniau Gweithredu.
- 1.1.2 Roedd Uned Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi comisiynnu Tribal Consulting i ymgymryd â Rhaglen o Weithgaredd i hysbysu'r datblygiad o'r Cynllun Cydraddoldeb Sengl Cynulliad Cymru.
- 1.1.3 Roedd y rhaglen yn cynnwys holiadur, cyfres o chwe digwyddiad cyswllt ar draws pob llinyn cydraddoldeb a gynhaliwyd ar draws y wlad ym mis Tachwedd 2007, wyth astudiaeth achos sengl, a chysylltiad gyda rhai o'r grwpiau anodd eu cyrraedd.
- 1.1.4 Roedd barnau wedi eu casglu oddi wrth hapddalwyr ym mhob llinyn cydraddoldeb (oed, anabledd, hil, rhyw, hunaniaeth o ran rhywedd, crefydd a chred a chyfeiriadedd rhywiol) a grwpiau eraill megis ymofynwyr noddfa, ffoaduriaid, teithwyr a gweithwyr mudol.

1.2 Cyhoeddusrwydd

- 1.2.1 Roedd yr holiadur a'r chwe digwyddiad cyswllt wedi eu cyhoeddi yn eang ym mis Hydref a Thachwedd 2007 i hapddalwyr, gan gynnwys cynrychiolwyr, sefydliadau ac senglion, ar draws yr holl llinynnau cydraddoldeb. Roedd y cyhoeddusrwydd wedi ei wneud ar gael drwy nifer o ffyrdd a oedd yn cynnwys: data-bas cysylltiadau SEDU, datganiadau i'r wasg a phapurau newyddion cenedlaethol, swp-lythyrau post ac e-bostiai wedi eu targedu, cyhoeddusrwydd mewn cylchlythyrau a gwefannau sefydliadau, a phosteri mewn llyfrgelloedd lleol. Ym mis Rhagfyr roedd set o gardiau post cyhoeddusrwydd wedi eu dyrannu er mwyn hysbysebu'r holiadur ym mhellach.
- 1.2.2 Roedd enghreifftiau o'r ymgyrch cyhoeddusrwydd gan gynnwys swp-lythyrau papur ac electroneg ac roedd wedi eu danfon i dros 260 o gyfundrefnau ar draws y llinynnau cydraddoldeb. Mae rhestr lawn o'r holl sefydliadau a gysylltwyd yn Atodiad H.
- 1.2.3 Roedd y 260 o gyfundrefnau a dderbyniodd cyhoeddusrwydd am y digwyddiadau cyswllt a holiaduron yn cynnwys, elusennau, grwpiau cymunedol, cymorth a gwirfoddol, cyrff gwasanaeth iechyd, athrofa'u addysg bellach ac uwch, cyrff llywodraethu, awdurdodau lleol a chyrff, ac undebau llafur.
- 1.2.4 Roedd nifer o'r sefydliadau hyn wedi cyhoeddi'r holiadur a'r digwyddiadau ymrwymiad eu hun drwy eu gwefannau, cylchlythyron a drwy gysylltu gyda'u haelodau.

1.2.5 Roedd y sefydliadau yma wedi dod o gysylltiadau o'r SEDU, grwpiau a adnabyddir yng nghwrs y prosiect, a sefydliadau a ddefnyddiwyd i hysbysebu'r prosiect i'r cyhoedd, megis y wasg leol a llyfrgelloedd a oedd wedi eu selio yng nghylch y digwyddiadau ymrwymiad.

1.3 Ynglŷn â'r ddogfen yma

1.3.1 Mae'r ddogfen yma yn cyflwyno darganfyddiadau'r holiadur, y chwe digwyddiad ymrwymiad, a'r wyth astudiaeth achos a'r cysylltiadau gyda'r rhai o'r grwpiau anodd eu cyrraedd.

1.3.2 Mae'r ddogfen hefyd yn cynnwys y naw atodiad canlynol:

- 1 Atodiad A yn cynnwys templed yr holiadur.
- 2 Atodiad B i G yn cynnwys yr adroddiadau o'r chwe digwyddiad ymrwymiad a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2007: yng Nghasnewydd (19eg Tachwedd), Abertawe (20fed Tachwedd), Aberystwyth (21ain Tachwedd), Caernarfon (22ain Tachwedd), Wrecsam (27ain Tachwedd) a Caerdydd (28ain Tachwedd).
- 3 Atodiad H yn cynnwys rhestr o'r 260+ o sefydliadau a oedd wedi derbyn cyhoeddusrwydd o'r rhaglen.
- 4 Atodiad I yn cynnwys y fframwaith roedd y chwe astudiaeth achos wedi eu selio.

2 Holiaduron

2.1 Cyflwyniad

2.1.1 Roedd holiadur wedi ei ddyfeisio er mwyn galluogi'r cyhoedd sy'n byw yng Nghymru i ddatgan eu barn. Roedd yn anelu i gipio barn ar y materion allweddol a blaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mi fydd yn hysbysu'r Cynllun Cydraddoldeb Sengl a Chynlluniau Gweithredu i'w gosod yn 2008.

2.1.2 Roedd yr holiadur ar-lein wedi ei gynnal gan Tribal ac yn cynnwys blychau ticio ac opsiynau testun rhydd, gydag un cwestiwn i bob tudalen gwe. Roedd clic ar y botwm 'nesaf' yn symud y defnyddiwr i'r cwestiwn nesaf. Nid oedd pob cwestiwn yn angenrheidiol, ac felly nid oedd angen i'r holl atebwyr ateb pob un o'r cwestiynau.

2.1.3 Roedd y wefan hefyd yn rhoi'r opsiwn o lawr lwytho fersiwn 'pdf' neu 'Word' o'r ddogfen. Roedd hi'n bosib cwblhau'r rhain yn electroneg neu eu he-bostio neu bostio yn ôl, neu wedi eu hargraffu, wedi eu cwblhau a llaw a'u dychwelyd drwy'r post.

2.1.4 Yn ogystal â'r holiadur ar-lein, roedd dulliau eraill o fynnu ymateb wedi eu cyhoeddi. Roedd allbrint sail-papur o'r holiadur ar gael pe dymunwyd a allai gael ei bostio i atebwyr ar gyfer cwblhad a llaw, ac roedd yr holiadur hefyd yn medru cael ei gwblhau ar ffurf cyfweiliad ffôn.

2.1.5 Roedd pob holiadur wedi eu cwblhau wedi eu mewnbynnu i mewn i'r arolwg ar-lein gan senglion, neu yn yr achos o'r sawl a gyflwynwyd drwy e-bost neu bapur, gan aelod o dîm ymchwilio Tribal. Roedd yr holl ddata o'r holiadur ar-lein yna yn cael ei lawr lwytho fel ffeil 'csv' ar gyfer ei ddadansoddi.

2.2 Testunau

2.2.1 Roedd yr holiadur wedi ei rannu i mewn i wyth rhan a oedd yn ymdrin â'r ardaloedd canlynol:

- 1 Bywyd cynnar.
- 2 Addysg a hyfforddiant.
- 3 Bywyd gwaith.
- 4 Amgylchedd.
- 5 Cymuned.
- 6 Safonau cenedlaethol.
- 7 Enghreifftiau o ymarfer da.
- 8 Amdanoch chi (demograffig yr atebydd).

2.3 Ymatebion

2.3.1 Roedd yr holiadur ar-lein yn rhedeg o fis Hydref 2007 i Ionawr 2008, gyda'r ymateb diwethaf yn cael ei wneud ar y 15fed o Ionawr. Mi roedd e ar gael yn Saesneg a Chymraeg ar y wefan Tribal: www.tribalgroun.co.uk/livesurveys.

2.3.2 Roedd yna gyfanswm o 149 o ymatebwyr ac o'r rhain roedd 146 wedi eu cyflawni yn Saesneg a tri yng Nghymraeg. O'r 148 yma, roedd ugain yn ddychweliad ar bapur ac mi roedd dau wedi eu cynnal drwy gyfweiliad ffôn. (Mi roedd yna un dychweliad papur ychwanegol wedi ei dderbyn ym mis Mawrth ac felly yn rhy hwyr i'w gynnwys yn y dadansoddiad hwn. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw feddyliau neu farn wedi ei fynegi gan yr ymatebwr nad oedd wedi eu trafod gan y dadansoddiad eisoes).


2.3.3 Roedd yr holiadur a'r digwyddiadau ymrwymiad wedi eu hysbysu yn eang i hapddalwyr ar draws yr holl linyddau cydraddoldeb. Mae dulliau ac enghreifftiau yn cael eu trafod yn yr adran Cyhoedduswydd 1.2, a rhestr o sefydliadau a gysylltwyd yn Atodiad I.

2.4 Trosolwg o'r Ymatebwyr

2.4.1 Roedd angen i'r ymatebwyr nodi eu band oed, rhyw, ble yng Nghymru roeddent yn byw, eu hethnigrwydd a'u crefydd. Roeddent hefyd rhaid iddynt nodi pa grwpiau cydraddoldeb roeddent yn eu hystyried eu hun yn rhan ohono.

2.4.2 Roedd oed yr ymatebwyr yn amrywio ar draws pob band oed gyda bron i hanner o'r 149 o ymatebwyr, 49%, yn yr ystod oed 40 i 59. (Gweler Ffigur 1).


Ffigur 1 – Oed yr Ymatebwyr



2.4.3 Roedd rhyw'r ymatebwyr wedi gweld rhifau llawer uwch o ymatebion gan fenywod na dynion, gydag o dan draean yr ymatebwyr, 63% yn fenywaidd. Roedd yna tri o'r ymatebwyr a oedd yn dewis peidio ateb y cwestiwn yma, ac roedd pob un o'r rhain yn y llinyn hunaniaeth o ran rhywedd.

2.4.4 Roedd yr ardaloedd lle'r oedd yr ymatebwyr yn byw wedi dychwelyd lledaeniad ar draws pob un o'r 22 awdurdod lleol. Caerdydd adroddwyd y mwyaf o ymatebion, gyda 23% o'r holl ymatebwyr yn dweud eu bod yn byw yno. Powys gyda 18% a Gwynedd gyda 12% roedd y ddwy ardal nesaf gyda'r nifer uchaf o ymatebwyr (Gweler Ffigur 2).

Ffigur 2 - Lle'r oedd yr ymatebwyr yn byw




2.4.5 Wrth ofyn am ethnigrwydd y rhan fwyaf o ymatebwyr, roedd 86% (128 o'r 149 ymatebwyr) wedi eu hadnabod fel naill ai 'Gwyn Prydeinig' (69%) neu 'Prydeinig Arall', 17%. Roedd y categori 'Prydeinig Arall' yn cynnwys: Cymraeg (chwe ymatebwr); Awstraliad (dau); Eingl-Iseldireg (un); Ffinaidd (un); 'Saesneg, Gwyddeleg, Albanaidd' (un).

2.4.6 Roedd yna 4% (chwe ymatebwr) a oedd yn 'Asiaidd neu Brydeiniwr Asiaidd India'; 3% yn Wyddeleg; 2% a oedd yn 'Asiaidd neu Brydeiniwr Asiaidd Pacistanaidd' a 2% pellach a oedd yn 'Gymysg Arall'. Mi roedd yna bedwar categori arall a oedd yn cyfrif am 1% yr un o'r ymatebwyr: (Gweler Ffigur 4); 'Asiaidd neu Brydeiniwr Asiaidd Arall'; 'Gwyn

Cymysg a Du Affricanaidd', Du neu Du Prydeinig Caribïaidd; a 'Gwyn Cymysg a Du Caribïaidd'. (Gweler Ffigwr 3).


2.4.7 Roedd deuddeg o'r ymatebwyr heb ateb y cwestiwn ethnigrwydd.

Ffigwr 3 – Ethnigrwydd yr ymatebwyr



2.4.8 Y grefydd a oedd yn cael ei gynrychioli gan y mwyaf o ymatebwyr roedd Cristnogaeth, gyda 39% o'r holl ymatebwyr. Roedd hyn yn cael ei ddilyn gan y sawl roedd yn datgan nad oedd ganddynt grefydd, 35%. Roedd 12% pellach heb nodi crefydd. Roedd y categori o 'crefydd arall' yn cyfrif am 6% gan gynnwys paganiaeth, pantheistiaeth a dyneiddwyr. Roedd hyn yn cael ei ddilyn gan Fwslim (3%), Sikh (2%), Bwdhaidd, Hindi ac Iddewig (1% each). (Gweler Ffigwr 4).


Ffigwr 4 – Crefydd Ymatebwyr



2.4.9 Gofynnir i ymatebwyr i ddewis pob un o'r grwpiau cydraddoldeb roeddent yn teimlo eu bod yn rhan ohono. (Gweler Ffigwr 5). Oed roedd y llinyn cydraddoldeb wedi ei ddewis gan y rhan fwyaf o ymatebwyr, gyda 42% o'r holl ymatebwyr. Yn y rhan fwyaf o achosion pan fo ymatebwyr yn dewis hyn, roedd yn cyfeirio at fod yn hŷn, (a oedd yn cael ei hunan-ddiffinio gan rhai o'r ymatebwyr yn eu 50au). Mewn rhai achosion roedd oed yn cael ei ddefnyddio i ymwneud a'r ieuanc.

2.4.10 Anabledd roedd wedi ei ddewis gan 34% o'r holl ymatebwyr, rhyw gan 28%, ethnigrwydd gan 27%, crefydd a chred gan 22%, a chyfeiriadedd rhywiol gan 15%. Mi roedd yna tri chategori arall wedi eu dewis: Hunaniaeth o ran rhywedd (5%), Teithiwr (4%), a Gweithiwr Mudol (1%).

Ffigwr 5 – Grwpiau Cydraddoldeb



2.4.11 Yna, gofynnir i ymatebwyr i roi manylion o unrhyw categori arbennig neu grŵp roeddent yn teimlo fel pe baent yn rhan ohono, er enghraifft, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol. Roedd y cwestiwn testun rhydd yma wedi creu ymateb gan y rhan fwyaf o'r grwpiau cydraddoldeb: oed, anabledd, ethnigrwydd, rhyw, hunaniaeth o ran rhywedd, crefydd a chred, a chyfeiriadedd rhywiol. Mae ambell rhai o'r sylwadau o bob categori yn dilyn:

- 1 "Rwyf i a fy ngwraig yn ddinasyddion hyn ac yn ffitio yn y cromfach 'bron yn dlawd' h.y. Mae gennym gynilion a phensiwn sydd ddim ond uwchben y ffin lle byddwn yn gymwysedig am fudd-daliadau, felly rydym yn cael ein bwrw'n galed gan gynnydd mewn trethi cyngor, costau tanwydd, ayb.."
- 2 "Menywod duon a lleiafrifoedd ethnig - mae'r ffaith fy mod i yn fenywaidd yn ei gwneud hi'n anoddach."
- 3 "Rwy'n perthyn i gymuned pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig 'gweladwy'; er fy mod wedi gwneud cartref yng Nghymru 32 mlynedd yn ôl a magu tri o blant sydd yn awr yn oedolion ac yn ddinasyddion cadarnhaol Brydain. Rwyf i yn Hindŵ ac yn llwyddo i ymarfer fy nghrefydd er gwaethaf fy nghymuned."
- 4 "Fel Catholig hoyw agored (nid Pabyddol) rwy'n gweld y rhan fwyaf o 'Gristnogion' sy'n methu derbyn fi, fel person ac yn teimlo'r gallu i fy nhrin i yn ôl athrawiaeth eu Meistr. Mae'r rhagrith yma yn arwain at waharddiad ac anffafiaeth."


- 5 “Rwyf yn ddyneiddiwr (h.y. nid oes gennyf grefydd). Yn eironig, mae ymdrech i atal anffafiaeth grefyddol gan roi statws arbennig i grefydd hefyd yn gorffen gyda gwahaniaethu yn erbyn pobl fel fi.”
- 6 “Rwy’n lesbiad anabl Iddewig Paganaid - does dim llawer fel fi i gael!”

2.5 Eich bywyd cynnar

A ydych chi wedi byw yng Nghymru erioed?

- 2.5.1 Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr 66% (98 o ymatebwyr) heb fyw yng Nghymru erioed. Roedd mwy na thraean, 43% (51 o ymatebwyr) wedi byw yng Nghymru erioed. (Gweler Ffigwr 6).

Ffigwr 6 – A ydych chi wedi byw yng Nghymru erioed?



A oedd y gwasanaethau cyhoeddus a ddarparwyd i gefnogi eich plentyndod a bywyd cynnar yn effeithiol?

- 2.5.2 O'r ymatebwyr a oedd wedi eu geni yng Nghymru neu wedi symud i Gymru fel plentyn, roedd 75% wedi ateb bod y gwasanaethau cyhoeddus a ddarparwyd i gefnogi plentyndod a bywyd cynnar yn effeithiol. Roedd 20% wedi datgan bod y gwasanaethau cyhoeddus ddim yn effeithiol a 5% heb roi ateb.
- 2.5.3 Roedd y cwestiwn hefyd yn rhoi'r cyfle i roi mwy o esboniad manwl mewn testun rhydd. Roedd nifer o enghreifftiau cadarnhaol a negyddol wedi ei roi, lle mae pob un ohonynt yn medru cael eu rhannu i mewn i'r ardaloedd: mynediad a safon addysg, iechyd gwasanaethau eraill a thrafnidiaeth gyhoeddus/ardaloedd gwledig. Mae enghreifftiau dangosol o bob un o'r rhain, yn cynrychioli pob ardal yn cael eu crynhoi yn Nhabl 1.

Tabl 1 –Cefnogaeth gwasanaethau cyhoeddus mewn bywyd cynnar

Gwasanaeth	Profiad Cadarnhaol	Profiad Negyddol
Addysg	“Ysgolion wedi eu darparu yn dda, maint dosbarthiadau rhesymol, addysg gymysg, llaeth am ddim.” “Oherwydd fy mod wedi mynychu ysgol gramadeg, roedd fy safon i o addysgu yn uchel iawn, ac rwy’n ddiolchgar am y cyfleodd roedd hyn wedi rhoi i mi, fel plentyn ac fel oedolyn.”	“Mae gennyf olwg ddiffygiol ac nid oeddwn wedi derbyn yr asesiad na’r cymorth roeddwn a’r hawl iddo tra yn yr ysgol. Yn enwedig gan ei fod yn fy nwy flynedd ddiwethaf pan roeddwn angen y cymorth fwyaf i gael arholiadau da. Roedd hyn cyn i’r syniad TGAU ddod i mewn.” “Dyslecsia heb ei ddiagnosis yn yr ysgol ac felly wedi fy nal yn ôl heb y cymorth sylfaenol.” “Pe byddech yn methu’r “11 plus” ac wedi derbyn addysg uwchradd mod, nid oeddech yn gallu ymgeisio i bethau mawr. Byddwn i fwy na thebyg yn cael fy ystyried fel un a diffygiad mathemategol yn nawr ond nid oedd unrhyw gymorth i mi i oresgyn hyn, o ganlyniad roeddwn yn methu dilyn gyrfa mewn dysgu.”
Iechyd	“Cymaint ag rwy’n i yn cofio pan oeddwn yn dost, nid oedd angen aros dyddiau i weld doctor ac mi roedd doctor yn gwneud ymweliadau i’r tŷ os nad oeddech yn marw ond dim ond yn rhy dost i deithio i’r feddygfa. Roeddwn heb glywed am restrau aros i driniaeth ysbyty ac	“Pan aeth mam yn dost, roeddwn wedi dyfod i fod yn brif ofalydd iddi ar gyfer ei gofal ol-llawdriniaeth gan nad oedd unrhyw nyrsys ardal yn fodlon teithio.” “Fel plentyn difrifol o fyddar, roedd yn rhaid i mi o hyd dibynnu ar mam i gyfathrebu yn effeithiol gydag eraill. Nid oedd

	ymgyngoriadau.” “Cynorthwyid fi gyda fy anabledd a rhoddwyd gwasanaethau cefnogi.” “Roeddwn i wedi fy ngeni adref, ond gyda bydwraig yn bresennol, roedd fy anghenion gofal iechyd wedi eu cyrraedd gan fy mod wedi derbyn pob brechiad ac archwiliad ayb, ac roeddent ond wedi dechrau yn 1951. Roedd gennyf fynediad i feddyg teulu, i ddeintydd ayb. Roedd fy anghenion addysg wedi eu cyrraedd hefyd. Roedd gennyf le mewn meithrinfa, ac yna dilynais y system ymlaen hyd at ysgol ramadeg.”	unrhyw ddehonglwyr ar gael. Nid oedd fynediad wedi ei ddarparu i mi e.e. fideos gydag is-deitlo, cyflwyniadau arwyddiaith Brydeinig, trawsgrifiadau ysgrifenedig.”
Gwasanaethau eraill	“Credaf fy mod wedi cael dechreuad eithaf da ac roedd gwasanaethau cyhoeddus o safon uchel iawn i gymharu gyda gwledydd eraill.” “Roedd gennym o hyd gwasanaethau cyhoeddus gwyb, parciau chwarae, ysgolion, canolfannau ieuencid a chlybiau roedd ambell waith yn cael eu hariannu gan bwrs y gymuned. Nid yw hi'n ymddangos bod yr un lefel o gefnogaeth i'r rhai ifanc y dyddiau yma. Mae popeth yn ymddangos i fod yn gefnogol ar grwpiau 'mewn risg' neu'r 'lleiafrif', dim ar gyfer y teulu cyffredin.”	“Roedd fy nhad yn ennill cyflog isel iawn ac yn rhoi cyfanswm annigonol i fy mam ar gyfer costau cynnal tŷ. Roedd hi o hyd mewn dyled gydag effaith croes i'w hiechyd a'i chryfder. Roedd hi hefyd yn rhannol anabl ers ei arddegau. Roedd cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol ar y pryd yn esgeulus. ” “Ysgarwyd rhieni pan roeddwn yn 13 (1990) - ac ar y pwynt hwnnw roeddwn wedi ein gwneud yn ddigartref, roedd yna ychydig iawn, os unrhyw ddarpariaeth o gyngor neu gefnogaeth ar y pryd.” “Nid oedd gormesu homoffobia ac Adran 28 wedi helpu'r materion.

		Diffyg cefnogaeth/gwasanaethau i bobl LGBT a gwelededd cyhoeddus isel iawn o'r gymuned LGBT - Rwy'n credu y byddai hyrwyddiad effeithiol o wasanaethau ac ymwybyddiaeth o faterion LGBT wedi cynorthwyo."
Trafnidiaeth Gyhoeddus / ardaloedd gwledig	Nid oedd unrhyw brofiadau positif wedi eu rhoi.	"Roeddwn yn byw mewn pentref bach tu allan i Wrecsam ac er bod meithrinfa dau fore'r wythnos, dyna'r cyfan. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n anodd i deuluoedd i weithio a gofalu am eu plant. Nawr rwy'n teimlo bod pethau wedi symud ymlaen ychydig ac yn fwy optimistaidd." "Roeddwn yn byw mewn ardal wledig iawn lle nad oedd unrhyw wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus."

Sut allai gwasanaethau cyhoeddus wedi helpu gwella eich profiadau o fywyd cynnar?

- 2.5.4** Roedd yr ymatebion a rhoddwyd i'r cwestiwn yma yn trafod pum prif ardal. Y rhain oedd: materion o fynediad i wasanaethau addysgiadol, mynediad i wasanaethau iechyd, byw mewn ardaloedd gwledig, cymorth ychwanegol mewn ymwybyddiaeth o anabledd ac amrywiaeth, a gwelliannau i wasanaethau eraill a chyfleusterau (megis cyfleusterau hamdden a Chanolfannau Gynghori).
- 2.5.5** Cefnogaeth ychwanegol a fyddai wedi gwella profiadau cynnar gan gynnwys ymwybyddiaeth mewn adnabod a chefnogi myfyrwyr gyda dyslecsia ac anawsterau dysgu; mwy o gefnogaeth a chynghor ar gyfer addysg uwch a pellach; a gwasanaethau cefnogi eraill megis clybiau wedi ysgol, cyfleoedd i ddysgu chwarae offerynnau cerdd a mynychu dosbarthiadau dawnsio am ddim. Enghreifftiau dangosol a rhoddir yn cynnwys:

- “Diagnosis cynnar a chefnogaeth ar gyfer y sawl gydag anawsterau dysgu a fyddai wedi helpu atal materion personol yn hwyrach mewn bywyd. Nid oedd ysgolion bryd hynny (1970au) mor gefnogol.”
- “Roedd darparu cefnogaeth dysgu wedi eu hyfforddi yn addas a dysgu dyslecsia arbenigol wedi fy helpu drwy'r amser anodd yma.”
- “Byddai darpariaeth well ar gyfer fy anghenion addysgiadol wedi bod yn fwy manteisiol. Roeddwn wedi gadael ysgol a choleg heb gymwysterau y tro cyntaf. Roeddwn hefyd angen rhyw fath o gynllun chwarae ar gyfer gwyliau ysgol.”
- “Roedd profiad ysgol yn gyfartalog, gydag ychydig o gefnogaeth i addysg uwch/bellach a dim tebygolrwydd i un o'n myfyrwyr cael eu hystyried ar gyfer Rhydychen/Caergrawnt.”
- “Mwy o hysbysebu eang, gydag ystod eangach o wasanaethau ar gael. Mi fydden i wedi hoffi dawnsio, canu, chwarae offeryn fel plentyn, ond roeddem fethu fforddio gwersi preifat, ac nid oedd unrhyw gyfle ar gyfer gwersi cymorthdaledig drwy'r ysgol.”

2.5.6 Cefnogaeth ychwanegol sydd angen yn y gwasanaethau iechyd yn cynnwys:

- “Fe allent wedi cefnogi fy nheulu yn well gyda gofal iechyd cymunedol.”
- “Efallai gallai'r GIG fod wedi bod yn well bryd hynny, mwy agos ac yn fwy gweithredol.”

2.5.7 Anawsterau o fyw mewn ardal wledig a allai wedi helpu gwella profiadau mewn bywyd cynnar gan gynnwys tlodi a'r anamllder ac anhygyrchedd o drafnidiaeth gyhoeddus:

- “Symudodd fy nheulu allan o Ynys Môn yn y 1960au cynnar er mwyn darparu bywyd gwell i'w plant - roedd eu barn nhw o addysg yn dlawd iawn a byddem yn medru gwneud yn well pe byddai eu plant yn cael eu haddysgu i ffwrdd o ardal wledig mor dlawd.”
- “Pryd hynny, roedd pobl a oedd yn anabl yn ei gweld hi'n anodd myned (bysiau). Wrth fyw mewn pentref bach, roedd yn rhaid i chi o hyd aros awr neu ddwy rhwng bob bws, felly dylent wedi bod yn fwy cyson.”
- “Byddai ariannu ar gyfer cymunedau gwledig tlotach wedi helpu.”

2.5.8 Roedd y diffyg argaeledd o wasanaethau eraill a chyfleusterau wedi eu dyfynnu gan ymatebwyr. Byddai gwelliannau dymunol wedi cynnwys gwasanaeth cyhoeddus yn codi ymwybyddiaeth, a gwella mynediad i wybodaeth a gwasanaethau i yrfaoedd, cyflyrau meddygol a gwasanaethau mwy cyffredinol a gwybodaeth (megis cynghori a rheoli dyled). Mae enghreifftiau yn dangos hyn yn cynnwys:

- “Byddai mwy o gyfleusterau i bobl ifanc fel safleoedd i gwrdd â chymdeithasu wedi bod yn neis. Dylai mynediad am ddim i gyfleusterau chwaraeon a hamdden fod ar gael i bobl ifanc.”

- “Oherwydd cyfrifoldebau gofalu am deulu, roedd fy ngweithgareddau yn gyfyngedig iawn ac yn ddibynnol ar deulu ac eglwys. Byddai cyfleoedd allanol ychwanegol wedi helpu lledaenu fy safbwynt a fy ngorwelion.”
- “Cefnogaeth well i fy mam e.e. fwy o gefnogaeth ariannol ond hefyd cyngor ar reoli dyled ayb. A fwy o gefnogaeth a chynghor emosiynol.”
- “Gwybodaeth o’r Ganolfan Gwaith, Canolfan gwybodaeth dinasyddion ayb.”

2.5.9 Roedd cefnogaeth ychwanegol i ymwybyddiaeth o gyflyrau ac anableddau yn cynnwys: pryderon ymarferol megis yr argaeledd o gymorth ac addasiadau; yr angen i godi ymwybyddiaeth gyhoeddus er mwyn lleihau hiliaeth, homoffobia ac anoddefgarwch yn erbyn grwpiau eraill; Rhai dyfyniadau sy’n dangos y pwyntiau yma yn cynnwys:


- “Mynediad i wasanaethau i blant, pobl ifanc, oedolion a hen bobl ddall... driwyr darpariaeth o wasanaethau i gyrraedd anghenion sengl, fel enghreifftiau cyfarpar [neu gefnogaeth] - cloch drws sy’n fflachio, ffonau testun, ffonau fideo, camerâu gwe, larymau sigledig, larymau tan weledol ...”
- “Codi ymwybyddiaeth; darparu arweiniad da; gwneud gwasanaethau ar gael i bobl LGBT ifanc a phobl sy’n ei gweld hi’n anodd i ‘ddod allan’. Roeddwn i yn aml yn teimlo fel yr unig hoyw yn y pentref. Teimladau o hunanladdiad ac anobaith.”
- “Mwy o wybodaeth a rhywun i siarad â fel nad oes angen i mi deimlo fel peth od.”
- “Atal rhwystro ac anffafiaeth gan athrawon a phlant.”
- “Taflenni ynglŷn â’r cyflwr, dealltwriaeth gyhoeddus well am y cyflwr a thaflenni ar gael mewn meddygfeydd, llyfrgelloedd ayb.”

2.6 Addysg a hyfforddiant

Ydych chi wedi gallu myned yr addysg a hyfforddiant rydych eisiau?

2.6.1 Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr 70% (104 o ymatebwyr) wedi nodi eu bod wedi gallu myned yr addysg a hyfforddiant roeddent eisiau. Roedd 24% o ymatebwyr yn teimlo eu bod nhw wedi methu gwneud hyn a 6% roedd heb eisiau ateb. (Gweler Ffigwr 7).

Ffigwr 7 – Medru myned yr addysg a hyfforddiant sydd angen



2.6.2 Roedd nifer o enghreifftiau cadarnhaol wedi eu rhoi o bobl yn medru myned cyrsiau gyda gwybodaeth a chefnogaeth addas. Er enghraifft:

- “Deng mlynedd yn ôl, roeddwn wedi dyfod i fod yn anabl ac rwyf wedi cael mynediad i addysg a hyfforddiant gyda’r help o weithwyr cymorth pan fo angen.”
- “Ar ôl i’r plant fod yn oed ysgol roeddwn wedi mynychu’r gweithdy menywod Caerdydd ac wedi ennill cymhwyster ar gyfer rhwydweithio a rheoli cyfrifiaduro. Roeddwn i hefyd wedi sefyll TGAU Saesneg mewn dosbarth nos.”

2.6.3 Y prif reswm a rhoddwyd am pam nad oedd pobl yn medru myned yr addysg a hyfforddiant angenrheidiol oedd: diffyg cyfle a chefnogaeth tra yn yr ysgol; anawsterau megis dyslecsia cael ei rhwystro gan anabledd (sy’n cynnwys diffyg darpariaeth o gyfleusterau mewn colegau a salwch sengl); materion dros deithio i’r coleg; materion ariannu, rhagfarn; a diffyg dewis o gyrsiau: Enghreifftiau dangosol yn cynnwys:

- “Fel oedolyn, ie ond mi fydden i’n ddiolchgar pe byddem wedi cael fy annog mwy yn yr ysgol. Pe bydden i yn cael fy amser yn ôl, mi fyddai’n well gen i astudio i yrfa yn hytrach na gadael ysgol a chael swydd.”
- “Yn byw mewn ardal wledig roeddwn yn methu teithio i’r ysgol o ddewis fy rhieni ac ar ôl hynny roedd teithio i goleg yn anymarferol.”
- “Mae pellter yn broblem fawr, yn enwedig pan roeddwn yn dod yma gyntaf, gan nad oeddwn yn gyrru. Nawr rydw i yn medru gyrru, ond mae rhai o’r cyrsiau roeddwn am wneud yn rhy bell, yn enwedig ar ôl gwaith pan mae hi’n dywyll yn y misoedd gaeafol.”

- “Roeddwn wedi dychwelyd i addysg yn fy nhridegau canol. Roeddwn wedi astudio ar gyfer fy ‘City & Guilds’ mewn TG er nad oeddwn yn medru cwblhau’r cwrs oherwydd fy mhroblemau medrusrwydd corfforol.”
- “Roedd triniaeth wael gan yr LEA heb annog fi i fynd ymlaen i goleg, heb son am brifysgol. Cefais wybod nad oedd dim y gallwn i’w wneud, ac o ganlyniad rwyf wedi bod yn ddi-waith am dros 20 mlynedd, yn lle cael fy rhoi at gyrsiau hyfforddi sy’n gwneud dim i helpu.”
- “Diffyg cefnogaeth ariannol i fyfyrwyr ethnig lleiafrifol. Rhagrith ac anffafiaeth yn y broses recriwtio a dewis.”

2.6.4 Roedd nifer o enghreifftiau positif wedi eu rhoi o ymatebwyr yn medru myned cyrsiau addysg a hyfforddiant o’u dewis, gyda mynediad i’r cyngor a chefnogaeth berthnasol. Roedd y rhain yn cynnwys TGAU, TAR, dosbarthiadau nos, ESOL a dosbarthiadau Cymraeg. Er enghraifft:

- “Roeddwn wedi fy nysgu mewn ysgol prif lif ac roeddwn yn iawn ar y cyfan yn yr ysgol gynradd gan fy mod yn cael fy amddiffyn gan griw da o ffrindiau roedd yn clywed ac roedd athrawon prif lif yn arbennig gyda fi ac yn addasu i fy anghenion addysgiadol (e.e. rhoi sesiynau un-wrth-un i mi).”
- “Trwy fynd drwy’r hen 11+ roeddwn yn medru mynychu’r ysgol ramadeg a oedd/sydd yn well na’r lefel o addysg sy’n cael ei dderbyn heddiw mewn ysgolion gallu cymysg.”
- “Rwyf wedi ymrestri mewn rhaglen ôl-raddedig o fy newis i ac yn derbyn hyfforddiant mewn swydd nawr fy mod yn gweithio. Fy unig sylw yw nad oedd y cyfleusterau yma ar gael am gost lai pan roeddwn yn chwilio am waith, ond nawr fy mod i’n gweithio, rwy’n medru ei fforddio.”
- “Roeddwn wedi mynychu ysgol Gatholig gymysg lle’r oedd ystod o bobl gyda bob cefndir gwahanol e.e. teithwyr. Roeddwn wedi symud ymlaen i goleg chweched dosbarth a oedd wedi fy mharatoi i waith. Rwyf heb fynd i Brifysgol ac wedi parhau i astudio wrth weithio.”

Pa fath o addysg a hyfforddiant rydych chi eisiau a sut fyddai’n cael ei drosglwyddo orau?

2.6.5 Roedd y math o addysg a hyfforddiant roedd angen ar yr ymatebwyr yn amrywio yn fawr. Roedd cyrsiau parhau datblygiad proffesiynol a chysiau yn gysylltiedig gyda hyfforddi (gan gynnwys hyfforddiant rheoli, cynghori, cyfraith cyflogaeth) roedd a’r mwyaf o alw, gan ddeuddeg o ymatebwyr; ymgymryd â chwrs gradd gan chwech o ymatebwyr, cyrsiau ôl-raddedigion (MA, PhD, MBA ar-lein) wedi eu ceisio gan bump o’r ymatebwyr; cyrsiau iaith Gymraeg wedi eu ceisio gan dri o’r ymatebwyr.

2.6.6 Rhai o’r enghreifftiau dangosol yn cynnwys:

- “Yn gyfoes mae angen datblygiad proffesiynol parhaus yn y maes adnoddau dynol, cyfraith cyflogaeth, cydraddoldeb ac amrywiaeth, ynghyd ac arweiniad

a datblygiad Rheolaeth. Byddai cynllun monitro busnes ar gyfer Cyfarwyddwyr Perchnogion o fusnesau bach yn dda.”

- “Ar y foment, rwyf eisiau derbyn cwrs iaith Gymraeg am ddim yn agos i ble rwy’n byw gyda gwasanaeth gofal plant am ddim.”
- “Byddwn i ddim yn meindio rhai lefelau-A mewn gwyddoniaeth, a chael y dewis o leiaf o fynd i brifysgol neu beidio.”

2.6.7 Y prif ddulliau ar gyfer trosglwyddo’r fath addysg a hyfforddiant a roddwyd chwech o’r ymatebwyr oedd cynnwys dysgu pellter ac ar-lein, dysgu wedi’u gefnogi adref, a dosbarthiadau dydd. Roedd pedwar o’r ymatebwyr yn teimlo y byddai’n well i gyrsiau cael eu trosglwyddo yn lleol.

- “Dysgu o’r cartref trwy gyfrifiadur gyda thiwtorial/cyfarfodydd wythnosol/misol gyda thiwtor.”
- “Roeddwn eisiau ymgymryd â gradd ac fe wnes i hyn gyda dysgu pellter a’r Brifysgol Agored.”
- “Fe hoffwn i gwblhau fy Meistr ond mae e’n rhy ddrud ac mi fyddai’n rhaid i mi deithio milltiroedd. Efallai gallai opsiwn ar-lein gael ei weithredu am ffi resymol.”

2.6.8 Roedd tri ymatebwr wedi datgan bod eu hundebau llafur yn medru cynnig cyrsiau addas. Roedd tri ymatebwr arall wedi dweud eu bod yn derbyn neu y hoffent dderbyn hyfforddiant drwy’r sectorau gwirfoddol a cymunedol. Er enghraifft:

- “Rwy’n edrych i mewn i hyfforddi fel tiwtor. Rwy’n gobeithio y byddaf yn medru cyflawni hyn drwy Unison.”
- “Rwy’n gweithio i elusen sy’n dal cyfleoedd cyfartal mewn ystyriaeth uchel iawn, ac rwyf i wedi fy nghyflenwi trwyddynt gyda’r holl anghenion sydd gennyf yn yr ardal.”

2.6.9 Roedd rhwystrau mewn ffurf mynediad corfforol cyfyngedig i golegau yn bryder i bedwar o’r ymatebwyr ac roedd dau ymatebwr yn teimlo bod rhwystrau sy’n rhwystro cymunedau lleiafrif ethnig. Roedd costau ariannu cwrs yn rhwystr gan ddau o’r ymatebwyr.

2.6.10 Mae rhai enghreifftiau dangosol yn cynnwys:

- “Hyrwyddo cynhwysiad ac nid gwaharddiad. Codi ymwybyddiaeth i’r dichonadwy o fewn cymunedau lleiafrif ethnig ac estyn allan llaw i helpi yn y gymuned.”
- “Addysg bellach yn lleol i ble rwy’n byw. Dealltwriaeth well gan bobl bod cydraddoldeb ddim yn son am drin pobl yr un peth ond yn hytrach cofleidio eu hanghenion amrywiol i gyrraedd cydraddoldeb.”
- “Mi fydden i wrth fy modd yn dychwelyd i addysg uwch i ddilyn PhD ond mae’r rhwystrau ariannol yn ormod. Byddai cynlluniau bwrsariaeth ar gyfer pobl gyda phroblemau iechyd meddyliol yn llawer o help.”


- “Rwy’n credu efallai ei fod ychydig yn rhy hwyr nawr! Bydden i wedi bod yn hoff o wedi cael hyfforddiant mewn Celf a Llenyddiaeth ond gydag anabledd a byw mewn ardal wledig, mae’r dewisiadau yn gyfyng. Rwy’n medru gweithio yn rhan amser ond nid wyf yn medru fforddio cyfrifiadur adref ac mae’r dewisiadau yn y coleg lleol yn gyfyng.”

2.7 Eich bywyd personol

A oes ardaloedd penodol o’ch bywyd personol rydych yn teimlo y gallai cael eu cefnogi yn well gan wasanaethau cyhoeddus?

- 2.7.1 Roedd bron dwy ran allan o dri o bob ymatebwr, 64% (95 o ymatebwyr) yn teimlo fel bod ardaloedd penodol o’u bywydau personol a allai cael eu cefnogi yn well gan wasanaethau cyhoeddus. (Gweler Ffigwr 8).

Ffigwr 8 – Medrai ardaloedd o’ch bywyd personol cael eu cefnogi yn well gan wasanaethau cyhoeddus?



- 2.7.2 Roedd yr ardaloedd penodol a roddwyd gan ymatebwyr yn eang ac yn perthyn i llyn(nau) cydraddoldeb senglion ac i wasanaethau cyhoeddus mwy cyffredinol. Y pedwar ardal a nodi’r fel y rhai lle allai gwelliannau cael eu gwneud roedd y gwasanaeth iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, trafnidiaeth gyhoeddus, a chodi ymwybyddiaeth gyhoeddus a gwasanaethau cyhoeddus o amrywiaeth mewn cymdeithas.

- 2.7.3 Roedd pryder ynglŷn â mynediad i wasanaethau iechyd wedi eu nodi gan nifer o ymatebwyr. Maen nhw wedi eu dangos isod:

- “Mynediad i ddeintydd neu ddoctor. Ers byw yng Nghymru, a’r profiadau rwyf wedi gweld fy nghyd-letywyr yn mynd trwyddo h.y. myned y gwasanaeth iechyd sydd wedi fy rhwystro i rag cofrestru.”

- “Mynediad i feddygfeydd doctor. Tra bod ffonio ar y dydd i wneud apwyntiad, rwy’n gweld ei fod yn medru eich gadael chi o dan straen ar amser pan rydych yn llai abl i ymdopi ag ef. Byddai bodlonrwydd i feddygfeydd dderbyn bwciadau am ychydig o ddiwrnodau o flaen llaw yn help.”
- “Fel gofalydd i berson anabl hyn, nid yw hi’n hawdd myned cefnogaeth. Wrth ffonio, mae un yn cael eu siomi wrth glywed nad oes gwasanaethau ar gael e.e. cymorth gyda gofal personol fel cael cawod a dim ond yn cael cynnig catalogau o brydiau parod!”
- “Monitro gofal iechyd gwell - yn enwedig i ddynion dros 45 e.e. sgrinio am broblemau prostad, clefyd y siwgr math 2 ayb.”
- “Lle rwy’n byw, gorllewin Cymru wledig, mae’r doctor agosaf yn Arberth, pum milltir i ffwrdd, mae’r ysbyty agosaf yn Hwlfordd 14 milltir i ffwrdd, ond ar gyfer rhai triniaethau mae’n rhaid i ni fynd i Gaerfyrddin (23 milltir), Llanelli neu Abertawe. Mae trafndiaeth gyhoeddus yn wan.”

2.7.4 Roedd materion ynglŷn â gwasanaethau cymdeithasol wedi eu codi gan gynnwys:

- “Tad dibynnol sydd â gorddryswch a phroblem yfed - gwasanaethau cymdeithasol methu darparu cefnogaeth effeithiol.”
- “Rwy’n berson anabl ac angen mwy o help gyda byw yn annibynnol. Rwyf hefyd yn byw mewn tloidi oherwydd y pensiwn y wladwriaeth a buddiannau anabledd prin a’r ffaith fy mod yn cael fy nhrethu ddwywaith oherwydd fy mod yn achosi Cost Gofal Cymuned. Mae angen cadair olwyn well arna i ...”
- “Cymorth/eiriolaeth mewn cyfnodau o anghyflogaeth - mae pobl gyda phrofiad cyfyng o fyned gwasanaethau cymdeithasol ac anfantais amlwg i gymharu gyda’r sawl sy’n gyfarwydd â’r system.”
- “Cyfleusterau gofal plant a rhwydwaith cefnogaeth - anodd i riant gwrywaidd sengl - rhan fwyaf yn fenywod a theimlo’n alltud.”
- “Gwasanaethau cefnogi llawer gwell i bobl agored i niwed fel pobl hyn bregus a phobl gydag afiechydon hir dymor ac anabledd. Mae hi’n anodd iawn i’r bobl yma a’u prif ofalwyr teulu i gynnal bywyd cyffredin - i fyned gwaith sy’n talu, ymgymryd.”

2.7.5 Roedd y materion trafndiaeth gyhoeddus a godwyd yn ymwneud a’r anamllder o wasanaethau bysiau mewn ardaloedd gwledig a’r prinder drafndiaeth gyraeddadwy i’r anabl. Mae trafndiaeth wael yn arwain at safon bywyd tlotach gyda chyfyngiadau ar deithio i fannau gwaith, addysg a hamdden a bywyd cymdeithasol:

- “Trafndiaeth gyhoeddus: mwy o hyblygrwydd, gwell cyfarpar ar gyfer y llai abl a henoed, hawdd eu myned, amwynderau a llochesau mewn gorsafoedd.”
- “Trafndiaeth gyhoeddus well (a thrafndiaeth gyhoeddus wedi’i gyd-drefnu’n well) e.e. Nid yw bysiau yn fy ardal yn rhedeg i’r orsaf drenau a dim ond i’r orsaf bysiau hanner milltir i ffwrdd! Mae angen bysiau mwy aml a bysiau sy’n cysylltu gyda threnau arnom.”

- “Rwy’n defnyddio’r gwasanaeth bws am amryw o resymau - gan gynnwys rhediad ysgol. Mae nifer o fysiau yn rhedeg ar hyd y llwybr ond rwy’n gweld bod gwahanol gwmnïoedd yn codi gwahanol bris am yr un llwybr ac rwy’n methu defnyddio tocynnau dychwelyd ar unrhyw fws.”

2.7.6 Mae materion a godwyd sy’n cysylltu ar draws y llinynnau cydraddoldeb yn cynnwys codi ymwybyddiaeth fel bod gwasanaethau proffesiynol a cyhoeddus a’r gymuned fel un yn deall grwpiau amrywiol a lleiafrifol yn well ac yn teimlo llai o dan fygythiad. Mae hyn yn cynnwys credoau diwylliannol a crefyddol, ethnigrwydd, anableddau (gan gynnwys canfyddiadau cyhoeddus a materion myned), a chyflyrau meddygol. Mae enghreifftiau sy’n dangos y pwynt yma yn cynnwys:

- “Drwy hyrwyddo gwir gydraddoldeb ac amrywiaeth a dim drafftio polisïau ond cynnal darparwyr cyhoeddus yn atebol.”
- “Mae yna o hyd angen mawr iawn am wasanaethau proffesiynol i sylweddoli bod Addysg, Gwasanaethau Iechyd a Chyngor bod angen mwy o ariannu a mwy o ymwybyddiaeth o anghenion pobl fyddar. Nid yw’r gyfundrefn addysg yn cyrraedd anghenion plant fyddar.”
- “Mwy o gyfleusterau i bobl LGBT i gwrdd â theimlo yn ddiogel, nid tafarnau a chlybiau. Rwy’n teimlo’n anniogel yn aml os yr ydwyf allan yng Nghaerdydd neu Pontypridd ar ôl tywyllu.”
- “Mae pob gwasanaeth iechyd sy’n cael eu hanelu at fenywod wedi eu rhagdybio yn heterorywiol.”
- “Mynediad corfforol o hyd ddim mewn lle mewn mannau cyhoeddus. Mynediad cyraeddadwy i doiledau mewn tafarnau, bwytai, clybiau, siopau, gwestai, theatrau a.y.b. Newid agweddau pobl.”
- “Teimlo’n ddiogel yn y nos. Heb ofni eich bod yn mynd i gael eich lladd oherwydd eich dullweddau a’r ffordd rydych yn siarad. Rwy’n teimlo fy mod yn methu bod yn rhan o fy nghymuned leol oherwydd ofn atbreis.”

2.7.7 Mae gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus arall yn cynnwys: gofal plant fforddiadwy, gwell cyfleusterau hamdden, cyllid uwch i lyfrgelloedd amgueddfeydd a grwpiau cymuned, cymorth a chyngor i’r prynwyr (megis prynu cartref, rheoli dyled);

- “Cynnydd mewn gwaith cyhoeddedig o safon ddiweddaraf mewn llyfrgelloedd, h.y. llyfrau, nofelau a bywgraffiadau newydd a.y.b. Cynnydd mewn cyllid ar gyfer amgueddfeydd a chymdeithasau hanesyddol.”
- “Cyngor ar brynu cartref, rheoli benthyciadau myfyrwyr, gwybodaeth i raddedigion newydd ar bethau fel pensiynau, cynilo (pethau sydd ddim yn cael eu dysgu yn yr ysgol).”
- “Mwy o gymorth i weithgareddau chwaraeon a hamdden, ac mi fyddai gostwng y costau o gyfleusterau wedi eu rhedeg gan y llywodraeth yn cael ei groesawi yn fawr.”

- “Mae rhai cyfleoedd hamdden sy’n cael eu darparu gan ddysgu cymunedol yn cael eu cynnal yn ystod y dydd. Mwy o gyrsiau penwythnos/nos e.e. byddai dosbarthiadau dawnsio yn fuddiol cal eu bod gan amlaf yn rhatach na gwersi dawnsio ffurfiol.”

Pa newidiadau i wasanaethau cyhoeddus a fyddai’n gwella eich bywyd personol?

2.7.8 Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr wedi ymateb yn uniongyrchol i’r rhan fwyaf o’r ardaloedd penodol roedd wedi eu hadnabod gan ymatebwyr yn y cwestiwn blaenorol: gwasanaethau ieuchyd, trafnidiaeth gyhoeddus, a chodi ymwybyddiaeth gyhoeddus ac ymwybyddiaeth gwasanaethau cyhoeddus o amrywiaeth mewn cymuned. Roedd yna ychydig iawn o ymatebion yn perthyn yn uniongyrchol i’r gwasanaethau cymdeithasol yn y cwestiwn yma, er ei fod wedi ei gynnwys yn amlach yn y cwestiwn blaenorol.

2.7.9 Roedd yna hefyd ymatebion yn perthyn yn uniongyrchol i wasanaethau cyhoeddus eraill: gan gynnwys addysg, gofidiau amgylcheddol, cartrefi, casglu sbwriel, diogelwch ar y strydoedd a chyfleusterau hamdden. Mae enghreifftiau dangosol o bob un o’r categorïau yma yn dilyn:

2.7.10 Myned gwasanaethau ieuchyd:

- “Mae’r prinder deintyddion GIG yn broblem real iawn ac yn ddifrodol. Fe es i mewn i ddyled i gael fy nhrin gan fod angen gwaith brys ar fy nannedd.”
- “Doctoriaid ac apwyntiadau ysbytai ar gael ar wahanol amserau, ar hyn o bryd mae fy meddygfa i yn darparu apwyntiadau rhwng 8.30-11 a 4-6. Rwy’n meddwl y byddent ynghyd a meddygfeydd eraill yn elwa wrth ofyn i’w cwsmeriaid beth maent eisiau a dylunio gwasanaeth o’i amgylch.”

2.7.11 Myned gwasanaethau cyhoeddus:

- “Gwasanaeth wedi’i integreiddio yn fwy a dealltwriaeth o’r rhwydwaith gofal cymdeithasol sy’n cefnogi pobl hyn yn eu cartref heb y peryg o’u cymryd i mewn i ofal.”

2.7.12 Myned trafnidiaeth gyhoeddus:

- “Gwell mynediad neu hyd yn oed mynediad cychwynnol mewn rhai achosion i wasanaethau cyhoeddus, adeiladau a’u hamgylchion, trafnidiaeth fforddiadwy gyhoeddus a preifat. Rwy’n gymwys am drwydded bws am ddim, ond gan nad oes unrhyw fysiau llawr isel yn fy ardal, nid yw o ddefnydd i mi.”
- “Gwell trafnidiaeth gyhoeddus. Gwasanaeth bysiau mwy aml yn y noswaith ac yn enwedig ddydd Sul e.e. Yn ddiweddar roedd yn rhaid i mi deithio o Gaerdydd i Ferthyr am weithgaredd hamdden ar ddydd Sul. Nid oedd unrhyw fysiau o gwbl a dim ond gwasanaeth trên bob dwy awr.”
- “Estyn cynllun trwydded bws yr LICC i bobl gydag anableddau i wasanaethau trên i roi fwy o ddewis ynglŷn â phryd a ble i deithio.”

- “Taccis sy’n darparu gwasanaeth mewn gwirionedd ac sydd ddim yn gwrthod gwaith!”

2.7.13 Cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd a gwasanaethau cyhoeddus o amrywiaeth yn y gymuned:

- “Derbyn bod angen i deithwyr fyned gwasanaeth o ble bynnag maent ddigwydd bod (GIG, ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol ayb.).”
- “Gwasanaethau ethnig sensitif pan fy mod yn tyfu’n hen ac yn ymddeol yng Nghymru.”
- “Lledaenu a darlledu yn gyhoeddus materion cydraddoldeb, nid yn unig mewn gair ond mewn ymarfer. Llywodraeth genedlaethol a derbyniad cymdeithasol a goddefgarwch o wahanol ffyrdd o fyw.”
- “Mwy o bobl fyddar ar staff. Hyfforddiant cydraddoldeb byddar i holl staff sy’n delio gyda’r cyhoedd. Monitro gwiriadau i asesu sut mae gwasanaethau yn cael eu darparu i’r prynwyr byddar a’r drwm eu cliw. Pob adnodd i gwrdd ag angen y prynwyr byddar a’r drwm eu cliw.”
- “Rwy’n credu yn gyffredinol bod angen gwell mynediad i annerch anghenion ieithyddol a diwylliannol a mwy o help gyda Saesneg i bobl hyn a’r sawl sy’n methu siarad yr iaith. Mae angen dealltwriaeth well o amrywiaeth gan weithwyr.”

2.7.14 Gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus eraill, gan gynnwys addysg, gofidiau amgylcheddol, cartrefi, casglu sbwriel, diogelwch ar y stryd a chyfleusterau hamdden.

- “Trafnidiaeth gyhoeddus well a mwy cynhwysfawr, glanhau strydoedd gwell, a mwy o arian i addysg gynradd ac uwchradd. (Rwy’n meddwl swm difrifol o arian, hyd yn oed os yw yn golygu codi trethi'r sawl sy’n medru eu fforddio, fi yn gynwysedig).”
- “Cyngor cliriach, cefnogaeth yn ymwneud ac asesu grantiau, gwybodaeth am inswleiddio er mwyn gostwng gollyngiadau carbon. Cefnogaeth gyda trafndiaeth amgen h.y. y defnydd o feiciau ayb. Rwy’n teimlo bod y mater (cynhesu byd-eang) angen cael ei rhoi ar flaen meddwl pawb.”
- “Stoc well o gartrefi cyhoeddus cyraeddadwy wedi eu dal gan y cyngor lleol.”
- “Mi fyddwn i’n hoffi gofal iechyd meddyliol sail cymuned sy’n haws i’w fyned. Goleuo da a phresenoldeb heddlu nodedig yng nghanol y ddinas fel fy mod yn gallu mynd o amgylch yn ddiogel yn y tywyllwch. Ariannu gwell i lyfrgelloedd cyhoeddus fel fy mod yn gallu parhau i addysgu fy hun wrth weithio.”
- “Mwy o bresenoldeb heddlu lle mae angen a gwelliannau enfawr mewn trafndiaeth gyhoeddus. Mae trafndiaeth gyhoeddus yn fater mawr o deimlo’n ddiogel. Hongian o gwmpas mewn gorsafoedd bysiau sy’n mynd bob awr; dal trên lle mae ychydig iawn o ddiogelwch arno.”
- “Mae angen i wasanaethau cyhoeddus fod ar fwy o sail lefel sylfaenol. Mae angen ymgynghori gyda’r actifyddion llawr gwlad yn hytrach nag arweinwyr y


gymuned maent wedi bod yn cysylltu â nhw ers y 10 i 20 mlynedd diweddaf. Mae angen gael gwared a'r jargon yn yr iaith."

2.8 Eich bywyd gweithio

A ydych yn gweithio?

2.8.1 Roedd y mwyafrif helaeth o ymatebwyr yn gweithio (65%) neu yn gweithio rhan amser (21%). Roedd ymatebwyr mewn gwaith felly yn cyfrif am 86%, 128 allan o 149 o'r holl ymatebwyr. (Gweler Ffigwr 9).


Ffigwr 9 – A ydych yn gweithio?



A yw gwasanaethau cyhoeddus yn cefnogi eich bywyd gweithio?

2.8.2 Roedd yna raniad cyfartal rhwng yr ymatebwyr roedd yn gweithio a oedd yn teimlo bod y gwasanaethau cyhoeddus yn, neu ddim yn cefnogi eu bywyd gweithio. Roedd 47% yn dweud bod gwasanaethau cyhoeddus ddim yn cefnogi eu bywyd gweithio a 46% yn dweud eu bod yn. Nid oedd y cwestiwn wedi ei ateb gan 7% o'r ymatebwyr. (Gweler Ffigwr 10).

Ffigwr 10 – A yw gwasanaethau cyhoeddus yn cefnogi eich bywyd gweithio?



2.8.3 Roedd y themâu a ddaeth i'r amlwg ar sut roedd gwasanaethau yn cefnogi bywyd gweithio wedi eu selio o amgylch, mynediad, deddfwriaeth a hyblygrwydd cyflogwyr, a'r isadeiledd cymdeithasol.

2.8.4 Roedd y thema o fynediad wedi'i amlygu yn arbennig bod y cynllun Mynediad i Waith yn chwarae i rai ymatebwyr yn y llinyn cydraddoldeb anabledd. Mae hyn yn cael ei ddangos gan yr ymatebion isod:

- “Cynllun Mynediad i Waith yn hanfodol wrth fy nghadw i mewn gwaith - cyflwr meddygol yn ei gwneud hi'n anniogel i mi ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus - cynllun yn cymorthdalu costau taxi dros gost gyffredin trên i'r gwaith a gartref pum diwrnod yr wythnos.”
- “Mae Mynediad i Waith yn rhoi'r gallu i mi i gynnal fy ngwaith yn effeithiol - plis peidiwch â chymryd y MiW i ffwrdd neu wneud toriadau ar y ddarpariaeth. Rwy'n ymwybodol bod DWP yn adolygu hyn ac mae hyn yn rhoi pryder mawr i mi a nifer o bobl fyddar arall.”

2.8.5 Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan gyflogwyr wrth fod yn hyblyg i anghenion a drwy ddeddfwriaeth gwrth-anffafiaeth, er enghraifft:

- “Mae rheolau gwrth-anffafiaeth mewn lle.”
- “Mae hawl gennyf weithio rhan amser a hyblygrwydd.”
- “Ni fyddwn yn medru gweithio heb fy nhrwydded bws ac rwyf wedi elwa o gynlluniau Yn Ôl I'r Gwaith ar gyfer pobl sy'n hawlio budd-daliadau analluogrwydd.”
- “Rwy'n derbyn amser i ffwrdd i ofal plant fel bod angen arnaf.”
- “Mae cyd-weithwyr yn ddealladwy, wedi i fi esbonio fy nghyflwr.”

2.8.6 Roedd yr isadeiledd cyffredinol ar draws yr holl wasanaethau wedi eu hamlygu fel cefnogaeth i fywyd gweithio:

- “Mae gwasanaethau priffyrdd wedi cadw'r ffyrdd yn deilwng i deithio, ysgolion yn golygu bod plant yn cael eu gofalu mewn amgylchedd diogel tra fy mod yn y gwaith, goleuadau stryd yn goleuo'r ffordd ayb.”
- “Addasiadau cartref wedi eu hariannu gan y cyngor.”
- “Rwy'n defnyddio'r trên a'r bws a gwasanaethau lleol: y we, canolfannau hamdden, gofal plant.”
- “Mae amgylchedd gweithio o safon uchel wedi eu hadeiladu ar sail isadeiledd cyhoeddus!”
- “Mae'r bysiau am ddim i bobl dros 60 yn gyfleus!”

2.8.7 Roedd y ffyrdd lle'r oedd teimlad **nad oedd** gwasanaethau cyhoeddus yn cefnogi bywyd gwaith yn medru eu rhannu i mewn i bum prif thema. Y rhain yw trafndiaeth gyhoeddus, gwasanaethau gofal, gwasanaethau iechyd, anhyblygrwydd cyflogwyr, a gwaharddiad ac anffafiaeth, er enghraifft, oherwydd anabledd neu oed.

2.8.8 Roedd teimlad bod angen gwelliannau ar wasanaeth trafndiaeth gyhoeddus, mewn ardaloedd gwledig, dinesig a chysylltiadau rhwng gogledd a de'r wlad. Roedd ardaloedd o drafndiaeth gyhoeddus yn cynnwys gwella mynediad (e.e. bysiau lefel isel), dibynadwyedd a gwasanaeth mwy rheolaidd i fysiau a threnau. Roedd ymatebwyr hefyd wedi dweud y byddai'r fath ddatblygiadau yn fuddiol i drawiad yr amgylchedd drwy leihau dibynadwyedd ar ddefnydd car. Enghreifftiau dangosol yn cynnwys:

- “Rhaid defnyddio car fy hun llawer. Byddwn i'n hoffi defnyddio trafndiaeth gyhoeddus ond mae'n rhaid iddo fod yn haws i ddefnyddio ac yn rhatach.”
- “Rwy'n defnyddio trafndiaeth gyhoeddus i'r gwaith. Mae'n cymryd amser hir i gyrraedd unrhyw le, yn enwedig tu allan i'r prif ddinasoedd felly nid wyf yn teimlo fel fy mod yn cael fy nghefnogi yn dda iawn yn yr ystyr yma.”
- “Ni fedraf ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus ac nid yw'r parcio am ddim, felly nid yw fy mywyd gwaith yn cael ei gefnogi gan y gwasanaethau cyhoeddus.”
- “Trafndiaeth gyhoeddus yn enwedig Stryd y Frenhines Gaerdydd o'r Eglwys Newydd ac weithiau o Ogledd Llandaf.”
- “Rwy'n teithio'n aml o ogledd Cymru i de Cymru ac yn goddef y cysylltiadau teithio gwael yn wythnosol.”

2.8.9 Roedd argaeledd a chostau gofal plant, gofal sengl a teuluol wedi eu hamlygu. Mae hyn yn cynnwys gofal plant cyn oed ysgol, ar ôl ysgol ac yn ystod gwyliau ysgol, a gofal cartref:

- “Mae gofal plant o hyd wedi bod yn fater anodd er ei fod yn gwella nawr ar gyfer cyn ac ar ôl ysgol yn fy ardal i. Fodd bynnag, rwy'n dal yn gyfyngedig o ran dewis.”

- “Clwb wedi’r ysgol - mae gennyf i blentyn chwe blwydd oed. Ond maent yn brin iawn eu hadnoddau, felly nid wyf yn ei ddefnyddio. Mae darpariaeth gwyliau tua £17 y dydd - yo!”
- “Mae cost gofal plant yn uchel. Nid yw rhieni dosbarth canol yn buddio o gredydau treth gweithio ac yn aberthu’r rhan fwyaf o gyflog un rhiant ar ofal plant cofrestredig - Dylai cynghorau cymorthdalw llefydd gofal plant.”
- “Nid wyf ar hyn o bryd yn derbyn unrhyw wasanaeth cyhoeddus a pe byddem eu hangen nhw, nid ydynt wedi eu geirio i ddelio gydag anghenion gofawyr teulu sydd hefyd yn gweithio.”
- “Gwasanaethau cymdeithasol a gofal cartref annigonol a drud, nid yw’n cefnogi annibyniaeth ond yn dweud wrthyh beth fydd yn cael ei ddarparu yn hytrach na chyrraedd eich anghenion annibynnol chi.”

2.8.10 Roedd y prif faterion ynglŷn gwasanaethau iechyd ynghylch mynediad allan o oriau gwaith:

- “Mae meddygfeydd doctor yn dueddol o fod oriau swyddfa yn unig.”
- “Rwy’n ei gweld hi’n anodd myned gwasanaethau cyhoeddus oherwydd fy mod yn gweithio’n llawn amser. Os oes angen gweld doctor arnaf (ac rwy’n gwneud hyn yn gyson i reoli fy meddyginiaethau) mae’n rhaid i mi gymryd diwrnod salwch i ffwrdd o fy ngwaith. Optegwyr a deintyddion, mwy o adrannau cyngor, llyfrgelloedd cyhoeddus ayb.”

2.8.11 Thema gyffredin ac ymddangosodd oedd anhyblygrwydd cyflogwyr. Roedd hyn yn rhan fwyaf wrth edrych ar gweithio-cartref, oriau wedi’u gweithio a diffyg cyfleoedd i weithio rhywle arall mewn sefydliad oherwydd diffyg mynediad i wahanol leoliadau:

- “Roedd gan Bowys polisi corfforaethol i hyrwyddo gweithio o’r cartref. Roeddwn wedi rhoi cais i mewn i’r gwaith yn ddiweddar i weithio un diwrnod yr wythnos o adref ond roedd e wedi ei wrthod. Rwy’n byw 15 munud o fy ngwaith ac mi fyddem ar gael ar y ffôn - a gallwn hefyd ddod i mewn pe bai angen fy amser i.”
- “Rwy’n gweithio pan fod angen i mi, gwaith tymhorol ar y tir yn fwyaf. Nid yw amgylchedd gweithio prif lip yn cefnogi fy anghenion.”
- “Rwy’n gweithio yn y llywodraeth leol ac yn methu cyrraedd y gwaith ar fws. Er bod yr awdurdod yn cytuno i weithio hyblyg mewn ymarfer mae hi’n anodd fod yn fam a gweithio oherwydd bod gwyliau neu ddiwrnodau hyblyg yn anodd iawn.”
- “Mae’r lle gweithio lleol yn gefnogol ond mae cyfleoedd cyfyngedig e.e. i weithio yn un o swyddfeydd arall y sefydliad ac mewn gwaith arall wedi eu sefydlu yn y cymoedd er enghraifft. Methu eu cyrraedd.”

2.8.12 Gwaharddiad ac anffafiaeth:

- 1 “Rhagfarn oed cyffredin.”

- 2 “Anhawster mewn diogelu cefnogaeth gan JCP mewn addasiadau yn y gweithle.”
- 3 “Mae gennyf i grydcymalau ac yn ei gweld hi’n anodd ei rheoli.”
- 4 “Rwyf i o hyd yn gorfod cyngori pobl o fy anghenion. Rwyf ambell waith yn cael fy eithrio o gyfarfodydd oherwydd nid oes unrhyw un wedi meddwl hurio dehonglwyr Arwyddiaeth Brydeinig neu wneud darpariaeth i bobl fel fi. Nid wyf yn siarad Cymraeg ac yn methu defnyddio’r offer cyfieithu.”

Pa fath o wasanaethau cyhoeddus a fyddai’n gwneud eich bywyd gweithio yn haws?

2.8.13 Y themâu a godwyd o’r mathau o wasanaethau cyhoeddus a fyddai’n gwneud bywyd gweithio yn haws roedd gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus, gwasanaethau ieched, gwasanaethau gofal, isadeiledd, mynediad i wasanaethau cymuned a llywodraeth, a thynhau deddfwriaeth anffafiaeth/cynyddu ymwybyddiaeth amrywiaeth.

2.8.14 Y thema roedd yn dominyddu yn llethol roedd y dymuniad i welliannau i drafnidiaeth gyhoeddus.

- “Mynediad i arweiniad gwasanaeth ac amserlenni mewn Braille.”
- “Trafnidiaeth gyhoeddus effeithlon a chyflym o ogledd Cymru i Gaerdydd ac yn ôl. Cysylltiad ffordd ddeuol o’r gogledd i’r de.”
- “Gwell trafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd rhannol-wledig i mewn i drefi yn aml (bysiau lle rwy’n byw yn dod bob awr neu ddwy sy’n llawer yn rhy anghyson i gael eu defnyddio llawer).”
- “Gwell trafnidiaeth gyhoeddus o fewn a thu allan y ddinas. Gwasanaethau amlach, gwasanaethau i fwy o ardaloedd. Teithio trên rhatach amseroedd blaenllaw - mae e’n waharddol o ddud i deithio ar amseroedd sy’n gweddu i’r gwaith.”
- “Gwasanaeth bws sydd ddim yn dechrau am 7y.b a gorffen am 6 y.p. Gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus fwy aml. Trafnidiaeth gyhoeddus fforddiadwy - mae hi’n costio mwy i mi i wneud siwrnai 5-10 munud ag yw hi i wneud siwrnai 50 munud.”

2.8.15 Gwasanaethau ieched, gan gynnwys mynediad i wasanaethau sydd ar gael ar hyn o bryd a mynediad i wasanaethau allan o oriau:

- “Nid oes gennyf yr amser i deithio 20 munud i feddygfa doctor, eistedd yno am awr, derbyn pum munud o ymgynghoriad a theithio 20 munud yn ôl i’r gwaith!”
- “Y gallu i geisio am addasiadau car ar y GIG.”
- “GIG....sy’n trin pobl drawsrywiol yng Nghymru yn yr un ffordd ag sy’n digwydd yn Lloegr.”

2.8.16 Gwasanaethau gofal, gan gynnwys gofal plant a mynediad i ofalu am yr henoed:

- “Meithrinfa a chlybiau wedi’r ysgol sydd am ddim.”
- “Gwasanaeth gofal sy’n wir gyrraedd anghenion person anabl neu sâl - dibynadwy, o safon uchel ac ar yr amseroedd sydd eu hangen - dim pan mae hi’n gyfleus i’r darparwyr gwasanaeth.”
- “Byddai mynediad i fwy o wasanaethau gofal a gwirio gwasanaeth gofal cartref wedi bod yn ddefnyddiol iawn yn ystod y blynyddoedd roeddwn yn edrych ar ôl fy mam (a oedd yn byw yn ei byngalo 30 munud i ffwrdd o fy nghartref a fy ngwaith) fy nghartref a fy nheulu.”
- “Gwell gofal plant am gost resymol i gymharu gyda lleoliadau eraill yng Nghymru.”
- “Gofal plant sy’n rhoi rhyddid i beidio mynd a phlant i’r feithrinfa/ysgol pan fo pawb arall yn bwrw’r stryd ar yr awr frys.”

2.8.17 Gwelliannau i isadeiledd:

- “Gwelliannau i ffyrdd beicio a dinas fwy diogel i symud o amgylch wedi tywyllu ac yn y nosweithiau.”
- “Ffyrdd wedi eu cynnal yn well.”
- “Gwasanaeth trên rhatach, mwy aml a cyraeddadwy. Gwelliannau i lif traffig - dim cynyddu costau trethi a thagiant!”
- “Mynediad hawdd a chyfartal i bob adeilad cyhoeddus.”
- “Mynediad gwell i’r rhyngwrwyd mewn ardaloedd gwledig.”

2.8.18 Gwelliannau i fyned a gwybodaeth ar wasanaethau cymuned a llywodraeth:

- “Cymdeithasau/cyfleodd i gwrdd â phobl gyda’r un math o gredoau/diwylliant.”
- “Mynediad i wybodaeth treth a chymhorthdal incwm ar lein ac ar bapur gwell ac yn fwy eglur.”
- “I wasanaethau cyhoeddus i fod yn fwy gwrth risg a dechrau cynnal y polisïau sydd gyda nhw mewn lle. Drwy ddiddymu rhwystrau biwrocrataidd sydd wedi eu gosod yn rhy aml yn llwybrau aelodau bregus ein cymdeithas.”

Rhaglen o weithgareddau i hysbysu Cynllun Cydraddoldeb Sengl Llywodraeth Cynulliad Cymru

- “Mwy o amser hyblyg i gyswllt personol gyda darparwyr gwasanaethau. Nid yw'r we a gwasanaethau ar-lein yn golygu'r unig opsiwn ar gyfer mynediad hyblyg.”
- “Llywodraeth gefnogol a swyddogion cyswllt awdurdod lleol i weithio gyda chymunedau teithiol.”

2.8.19 Tynhau deddfwriaeth anffafriaeth/cynyddu ymwybyddiaeth amrywiaeth.

- “Gwneud i'r sector preifat cynnal theori sydd ganddynt, fel bo deddfau amrywiaeth a chydaddoldeb yn wir gweithio mewn ymarfer.”
- “Mwy o dderbyniad bod pobl gyda chyfrifoldeb gofalu a chyfrifoldebau a phrofiadau eraill a gwerth ychwanegol yn y maes gofal iechyd a cymdeithasol.”
- “Mwy o anogaeth i weithwyr i ennill y cynllun dau dic - yn bositif gyda phobl ac anabledd. Sefydliadau sector gyhoeddus ddim o hyd yn tybio bod gan bobl mynediad i geir preifat i gyrraedd cyfarfodydd.”
- “Ymrwymiad llywodraeth yn erbyn troseddau casineb ac anffafriaeth rhyw fel fy mod yn teimlo'n ddiogel i wisgo fel rwy'n mynnu yn fy ngweithle.”


2.9 Yr amgylchedd rydych yn byw ynddo

A yw'r amgylchedd rydych yn byw ynddo yn gefnogol o'ch mater cydraddoldeb?

- 2.9.1 Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn teimlo bod eu hamgylchedd yn gefnogol o'u materion cydraddoldeb, gyda 59% yn dweud ie a 34% yn dweud na. Roedd y gweddill 7% heb ateb y cwestiwn. (Gweler Ffigwr 11).

Ffigwr 11- Amgylchedd yn gefnogol o faterion cydraddoldeb?

% Ymatebion



2.9.2 Mae themâu lle mae'r amgylchedd mae'r ymatebwyr **yn** byw yn gefnogol yn bennaf yn cylchdroi o amgylch derbynioldeb (o anabledd, ethnigrwydd, crefydd neu gyfeiriadaeth rywïol) a gwaith deddfwriaeth a chefnogaeth cymuned mewn lle.

2.9.3 Derbynioldeb:

- "Cymdogion yn gyfeillgar ac yn helpu gyda siopa a chefnogaeth pan fo angen."
- "Byw mewn dinas yn helpu oherwydd bod cymuned llawer mwy amrywiol yn byw mewn dinasoedd yng Nghymru i gymharu gyda'r ardaloedd mwy gwledig o Gymru. Fodd bynnag mae yna o hyd diffyg dealltwriaeth o amgylch materion o hil, ffydd a rhyw."
- "Gan fod fy mhartner wedi ei magu yn y gymuned gyfagos rydym wedi ein derbyn yn dda, fodd bynnag mae rhai dyfodiadau heb fod mor ddealladwy, ac mae cymdogion hyn wedi siarad allan i amddiffyn ein hawl i dderbyniad."
- "Mae ffrindiau teulu a chymdogion wedi derbyn esboniad."

2.9.4 Deddfwriaeth, gwaith a chefnogaeth cymuned:

- "Cyn belled ag rwyf i yn gallu dweud, mae materion amgylcheddol wedi eu cefnogi yn dda. Mae PLANED (Pembrokeshire Local Action Network for Enterprise & Development) a PAVS (Pembrokeshire Association of Voluntary Services) yn rhoi cyngor da a chymorth."
- "Rwy'n gynrychiolydd uned llafur ac yn ymgychu'n weithredol mewn materion cydraddoldeb. Cefais gefnogaeth helaeth gan fy sefydliad i."
- "Mae polisïau AD yn gyffredinol yn cymryd i ystyriaeth materion cydraddoldeb. Mae gweithrediad fodd bynnag, ddim o hyd yn gyson."

2.9.5 Yn yr amgylchedd lle'r oedd yr ymatebwyr yn byw, **nid oeddent** yn gefnogol o anffafiaeth (megis analluaeth, homoffobia a hiliaeth) ac isadeiledd (diogelwch personol, ffyrdd, diogelwch yn y tywyllwch, tai).

2.9.6 Anffafiaeth yn cynnwys analluaeth, homoffobia a hiliaeth:

- “Er nad wyf wedi profi homoffobia uniongyrchol fy hun, rwy’n adnabod cwpl sy’n byw pedwar drws i lawr i mi sydd wedi, sy’n gwneud i mi deimlo’n nerfus am fod yn agored gyda fy mherthynas gydag eraill yn y pentref.”
- “Llawer o ragfarn am fenywod lesbiaid yn gyffredinol, yn enwedig rhai sy’n magu plant.”
- “Mae rhai digwyddiadau yn erbyn fi a fy mhartner wedi bod yn amlwg ag elfen homoffobia ac wedi eu gwrthod yn llwyr gan yr heddlu, ac wedi ein gwneud ni i deimlo fel poendod, ambell waith hyd yn oed fel troseddwr, wrth geisio annerch y mater.”
- “Rwy’n gallu gweithio yn rhan amser ac wedi cael addasiadau rhesymol wedi eu gwneud. Fodd bynnag, mae cyfyngiad wedi ei roi ar ddychafiad posib oherwydd yr elfen rhan amser a’r anabledd rwyf i’n gweld yn anffafriol oherwydd mae fy ngwerth i yn cael ei weld yn gyfyngedig.”
- “Mae dosbarth yn fater mawr yma - Mae Prifysgol Caerdydd yn lle anodd i weithio os rydych o ddosbarth gweithiol!”

2.9.7 Isadeiledd gan gynnwys diogelwch personol, ffyrdd, cartrefi a gwasanaethau eraill:

- “Mae fy amgylchedd medru bod yn ddychrynlyd i gerdded o amgylch wedi tywyllu. Sbwriel, tipio anghyfreithlon ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu gwneud hi’n amhleserus. Mae fy sefyllfa cartrefi yn drap anobeithiol - gan fy mod yn gweithio yn llawn amser, nid wyf yn gymwys am unrhyw gymorth ond fel sector cyhoeddus cyflog isel.”
- “Nid yw cartrefi ac adeiladau cyhoeddus, trafnidiaeth gyhoeddus, gwasanaethau cyhoeddus ac agweddau yn ei gwneud hi’n hawdd i bobl anabl a’u teuluoedd i fyw bywyd cyffredin.”
- “Rwy’n byw ym Mhantmawr, gogledd Caerdydd ac nid oes unrhyw gyfleusterau yn cael eu darparu o gwbl. Mae yna dafarn sydd mewn bygythiad o gael ei ailddatblygu. Mae’r ffyrdd ar y stad ag arwyneb gwael ac nid yw fy stryd i byth yn cael ei graenu yn y gaeaf felly mae’n gallu bod yn beryg iechyd.”
- “Mae gan yr ardal rwyf i yn byw nifer fechan o bobl o dras Affro Caribïaidd. Felly nid yw’r archfarchnad leol yn cadw cynnyrch sy’n gweddu i ni... ond efallai fel bod mwy yn symud i mewn i’r ardal, mi fydd yna alw. Mae bwytai ac archfarchnadoedd nawr gydag ychydig neu dim alcohol.”
- “Er gwaethaf gwelliannau i’r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, mae’r rhan fwyaf o bobl gyda phroblemau symudedd yn wynebu taliadau anwastad, ffyrdd prysur heb groesfannau diogel, cyfleusterau hamdden ac adwerthol wedi eu cynllunio o amgylch gyrrwyr ceir yn unig.”

Beth allai gael ei wneud i wneud eich amgylchedd yn fwy cefnogol o'ch materion cydraddoldeb?

2.9.8 Roedd y ffordd a allai'r amgylchedd cael ei wneud yn fwy cefnogol i faterion cydraddoldeb yr ymatebwyr yn gorchuddio pedwar prif thema; gwella ymwybyddiaeth gyhoeddus a proffesiynol wrth gynyddu gweithrediad positif, gorfodi deddfwriaeth gwrth-anffafriaeth, gwelliannau isadeiledd, a gwell mynediad i'r gwasanaethau iechyd.

2.9.9 Gwella ymwybyddiaeth gyhoeddus a proffesiynol o amrywiaeth, a chynyddu gweithrediad positif a defnyddio gwybodaeth arbenigol o fewn y llinynnau cydraddoldeb gwahanol, drwy senglion a chymunedau:

- "Gwell addysg ar gydraddoldeb o ran rhyw a chyfeiriadedd. Dim hyrwyddiad o faterion hoyw ond yn hytrach dealltwriaeth onest a theg o beth sy'n stad ddynol reddfol i'r lleiafrif mawr o'r boblogaeth."
- "Cymuned llw i fod gallu gwerthfawrogi bod gan rhai ohonom o gymunedau lleiafrifol sy'n ystyried Cymru fel eu cartref credoau diwylliannau a chrefyddol gwahanol ac i fod yn oddefgar o'r gwahaniaethau a'r amrywiaeth o gyfoeth mae'n dod i'r holl gymunedau."
- "Mwy o gefnogaeth i'r gwaith sy'n cael ei wneud gan grwpiau cymuned llawr gwlad."
- "Addysgu'r cyhoedd a'r cyfryngau, ond mae'n rhaid i ni'r teithwyr i addysgu'r addysgwyr yn gyntaf!"
- "Gweithrediad positif i ddefnyddio sgiliau'r bobl sydd wedi profi problemau iechyd meddyliol ac anableddau eraill i ddarparu delfrydau ymddwyn positif. Mae pobl gyda phroblemau iechyd meddyliol yn arbenigwyr ac mae'r medrusrwydd yn aml yn cael ei golli."

2.9.10 Deddfwriaeth; lle mae deddfwriaethau gwrth-anffafriaeth eisoes mewn lle ac mae yna deimlad y gallai gael ei orfodi yn well (fel mynediad a hiliaeth) a gwelliannau yn y ddealltwriaeth o ymarfer amrywiaeth a chydraddoldeb gan wneuthurwyr polisi:

- "Dylai pob adeilad cyhoeddus ac unrhyw adeilad newydd fod yn gyraeddadwy a dylai bod toiledau anabl gweddus gan gynnwys ystafell newid i bobl sydd ag anghenion gofal personol."
- "Gwell ddealltwriaeth gan wneuthurwyr polisi a thimoedd trosglwyddo yn beth yw ymarfer cydraddoldeb da."
- "Yn gychwynnol, hyfforddiant codi ymwybyddiaeth ac amrywiaeth i bob corff statudol - fodd bynnag mae angen i hyn hefyd gael ei fonitro a'u gwerthuso, ni ddylai gwasanaeth gwael gael ei ganiatáu - mae e yn ffaith ei fod yn cael ei ganiatáu. Rwyf wedi cael yr ymateb 'Hei - beth alla i wneud?' yn rhy aml."
- "Pe bai'r gwaith rydych yn gwneud yn cael ei werthfawrogi yn ddifater o'ch rhyw. Efallai bod rhywun wedi dweud wrthy ch eich bod yn cael eich

gwerthfawrogi ond mewn cysylltiad â beth mae pawb arall yn ei ennill, dydych chi ddim.”

- “Mae angen i fwy o gymorth cael ei rhoi i bobl sy’n agored i niwed ac sydd yn byw yn y sector preifat a llety wedi’u rhentu - mae angen i berchenogion gael eu rheoleiddio yn well ac eiddo wedi eu harchwilio yn well i wneud yn siŵr eu bod yn cyrraedd y safon.”

2.9.11 Gwelliannau isadeiledd, gan gynnwys cyfleusterau ar gyfer arddegwyr, parcio anabl a chynllunio:

- “Cwrbyn wedi’u hiselu a chyfleusterau parcio anabl gwell.”
- “Llwybrau lletach, goleuadau traffic cyffyrddol - yn hytrach na’r pethau pelican yna sydd ychydig iawn o ddefnydd i bobl ddall. Cloddiau/gwyrddni wedi eu cynnal yn well mewn cysylltiad gyda llwybrau cyhoeddus o unrhyw fath.”
- “Cael y cynlluniau yn iawn cyn dechrau - e.e. rydych yn adeiladu parc manwerthu newydd - ble mae’r llwybrau troed, llwybrau beicio, safleoedd dal bws/gwasanaethau trên, a oes mynd i fod croesfannau pelican wedi’u rheoli gan bedestriaid?...
- “Mae nifer o bobl yng Nghefn Gwlad Cymru heb eu cysylltu gyda’r brif system carthffosiaeth. Mae nifer o ffyrdd yn mynd yn brysurach. Lle rydym yn byw, ar y ffordd A478, mae’r traffic mor brysur, yn enwedig gyda thraffig nwyddau trwm, mae ein tŷ ni yn cael ei niweidio gan y dirgryniadau, llwch ayb?”

2.9.12 Gwelliannau i’r gwasanaeth iechyd i rai anableddau a chyflyrau, yn ogystal â mynediad i bawb:


- “I well wasanaethau GIG i’r sawl gydag anableddau cronig e.e. poen cefn ar sail gyson neu a’r sail angen yn hytrach na rhaid eu hailgyfeirio o hyd dim ond pan mae’r broblem wedi gwaethgu cymaint fel eich bod yn methu cerdded/gyrru neu weithio.”
- “Teclynau clywed sydd ddim yn costio’r ddaear ac sy’n medru eu cynnal yn hawdd. Nawr, mae’n rhaid i mi dalu o amgylch £3000 am declyn sy’n gweithio a chost cynnal sydd ddim yn agos.”
- “Doctoriaid lleol 24 awr, mynediad hawdd i ysbytai.”

2.10 Cymuned

A oes unrhyw broblemau penodol neu heriau rydych yn wynebu wrth fyw yn eich cymuned leol?

- #### 2.10.1
- Roedd dros hanner yr ymatebwyr 55%, yn teimlo eu bod yn wynebu problemau a heriau sbesifig wrth fyw yn eu cymunedau lleol (gweler Ffigwr 12).

Ffigwr 12 - Problemau a heriau mewn cymunedau lleol



2.10.2 Y themâu a ymddangosodd ymysg y sawl a deimlai bod yna broblemau ynglŷn ag anffafriaeth a diogelwch, tlodi, isadeiledd lleol a gwasanaethau cymunedol, gwasanaethau gofal, iechyd a thrafnidiaeth gyhoeddus.

2.10.3 Roedd gofidion anffafriaeth a diogelwch yn cynnwys ofn o, a chamdriniaeth eiriol a corfforol go iawn:

- “Mae pobl dal yn anwybodus, anoddefgar, ac yn ynysol. Mae yna o hyd gwrthodiad bod Cymru, yn wir, Prydain yn gymuned aml-ddiwylliant gyda’r ewyllys gorau yn y byd, nid yw pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn medru cydweddu yn y wir ystyr.”
- “Rwy’n byw mewn ardal ar bwys y maes pêl-droed ac felly yn ei gweld hi’n eithaf brawychus cerdded i lawr y stryd fawr pan fod gêm pêl-droed oherwydd rwy’n cadw meddwl ac rwy’n ofnus o gael fy ngham-drin oherwydd fy ethnigrwydd ac o ganlyniad rwy’n ceisio osgoi’r ardal hon.”
- “Heriau - bod yn berson anabl mewn cyflogaeth llawn amser. Hefyd bod yn lesbiad mewn dinas lle rwy’n disgwyl i bawb i fy nhrin fel y hoffent nhw gael eu trin.”
- “Homoffobia- mae angen newid meddylfryd y gymuned yn y ‘cymoedd’. Rwyf allan ym mhob agwedd o fy mywyd – oni bai adref.”

2.10.4 Materion tlodi:

- “Mae amddifadedd economaidd yn broblem enfawr gan fod hi’n ymddangos bod cylch milain yn digwydd. Mae’n ymddangos i ddilyn o un genhedlaeth i’r llall ac mae yna ormod o gefnogaeth i’r sawl sy’n dewis bod yn ddi-waith.”
- “Ardal o amddifadedd cymdeithasol gydag ychydig neu dim darpariaeth ar gyfer y rhan fwyaf o bobl ifanc neu hen. Diffyg cydlynid gwahaniaethau

gwaethygiad cymdeithasol. Diffyg mentrau dilynol sy'n dangos i ddarparu canlyniadau da."

2.10.5 Isadeiledd, gwasanaethau lleol a cymunedol gan gynnwys gwelliannau i glybiau ieuenctid, grwpiau cymunedol, mynediad i wasanaethau megis cartrefi:

- 1 "Yfed ar y strydoedd. Dim digon o fannau i bobl ifanc fynd iddynt."
- 2 "Costau tai, poblogaeth sy'n heneiddio, diffyg cyfleusterau chwarae a gweithgareddau i'r plant (tu fewn a thu allan)."
- 3 "Cartrefi cyraeddadwy, gwasanaeth cymdeithasol da, palmantau a ffyrdd cyraeddadwy, adeiladau cyhoeddus cyraeddadwy, trafndiaeth gyraeddadwy"
- 4 "Fel uchod, anawsterau yn codi wrth fynd yn hyn a dim cyfleusterau o gwbl. Rwyf i byth wedi gweld llyfrgell symudol chwaith. Unwaith fy mod yn ymddeol o fy ngwaith, ni fydd gweithgaredd cymuned ar gael i mi. Pe byddem yn methu gyrru rhywbryd, byddwn yn methu symud o'r cartref."
- 5 "Mae fy nghymuned leol yn newid ac yn tyfu - mae angen cyfleusterau cymunedol mwy cyraeddadwy sy'n gyraeddadwy i'r gymuned maent yn gwasanaethu ac yn darparu digwyddiadau a gwasanaethau yr wyf i'n gallu uniaethu a nhw."

2.10.6 Gwasanaethau gofal, gan gynnwys gofal plant a gofal teulu:

- "Gofal plant, costau byw, trafndiaeth."
- "Cymuned gaeedig, rhwystrau ieithyddol, diffyg cymorth gyda phlant,"

2.10.7 Iechyd, materion mynediad yn enwedig:

- "Pan roedd gennyf i gancr, cefais dair llawdriniaeth yng Nghaerdydd (90 i 100 milltir i ffwrdd). Fe ddefnyddiais y gwasanaeth car ysbyty - arbennig, ond mi roedd hi'n anodd iawn i fy merch, 13 mlwydd oed bryd hynny, i ddod i fy ngweld i - ac roedd hi wedi medru gwneud unwaith, yn ystod y tri diwrnod a arhosais yn yr ysbyty."

2.10.8 Trafndiaeth Gyhoeddus:

- "Oes, trafndiaeth ar gael yn hawdd a siopa am fwydydd. Dydyn nhw ddim yn rhad iawn ac mae'r ystod yn gyfyngedig i sylfaenol. Mae'r safon o ffrwythau a llysiau yn wael ac yn gyfyngedig o ran ystod. Felly, mae hi'n her i fwyta'n iach."

2.10.9 Ymysg y 41% o ymatebwyr a adroddodd nad oedd unrhyw broblemau neu her yn eu cymuned, y brif thema a ymddangosodd oedd yn ymwneud gyda derbyniad:

- "Rwy'n byw yng Nghaerffili - mae teulu a ffrindiau yn gefnogol iawn. Mae ein tafarn lleol wedi ein croesawu gyda breichiau agores -sy'n grêt."
- "Rwy'n mwynhau byw mewn lleoliad cymuned ethnig amrywiol. Rwy'n ei weld yn ddiddorol ac yn gyffrous ac nid wyf yn cael fy mygwth gan yr amrywiaeth."

- “Rwy’n byw yn y rhan gwell o’r dref ac felly dim problemau o fewn y gymuned.”

Beth allai gael ei wneud i wneud eich cymuned leol yn fwy cefnogol o’ch mater cydraddoldeb?

2.10.10 Y themâu a chodwyd roedd ymwybyddiaeth gyhoeddus a proffesiynol o amrywiaeth, mwy o gefnogaeth gan gymunedau ac awdurdodau, trafnidiaeth gyhoeddus ac iechyd.

2.10.11 Codi ymwybyddiaeth gyhoeddus a proffesiynol o amrywiaeth ac angen:

- “Ymgyrch Ymwybyddiaeth Gyhoeddus effeithiol iawn i amlygu’r 1 mewn 4 sy’n profi’r problemau iechyd meddyliol i sicrhau bod afiechyd meddyliol yn tyfu i fod yn destun mae pobl yn medru trafod heb ofn gwahaniaethu.”
- “Dylai cymuned gael eu hannog, neu eu gwneud yn ymwybodol, o werth pobl gydag anableddau/agored i niwed/hen bobl sydd â phrofiadau bywyd i rannu a sgiliau i basio ymlaen.”
- “Addysg gyffredinol (yn dechrau yn yr ysgol gynradd), hyrwyddo cydraddoldeb drwy gelf, ayb. Negeseuon clir yn y llywodraeth leol/cenedlaethol o ba fath o ymddygiad sy’n annerbyniol yn y gymdeithas fodern - arweiniwch y ffordd!”
- “Addysg, ymwybyddiaeth o faterion. Mae hi’n hawdd ac yn ddiogel i gymdeithasu gyda phobl rydych yn adnabod ond mae yna ragdybiaeth nad yw cymunedau lleiafrifol eisiau cymysgu.”

2.10.12 Mwy o gefnogaeth gan gymunedau ac awdurdodau lleol, megis yr heddlu:

- “Byddai cynllun cymdogion da yn dda. Cymuned sy’n fwy cefnogol.”
- “Mae angen mwy o orfodaeth o gyfraith a rheoleiddiadau ar ymddygiad gwrth cymdeithasol. Yn wir, rwy’n gweld ychydig o’r fath orfodaeth o gwbl ar hyn o bryd.
- “Byddai heddlu cymdogaeth gydag amser ymateb gwell - efallai gan ddefnyddio rhywbeth gwahanol i unedau heddlu wedi’u hyfforddi yn llawn e.e. heddlu’r gymuned.”
- “Yr heddlu yn trin troseddau casineb o ddifrif ac yn erlyn troseddau casineb go iawn.”
- “Diwrnodau cymuned i gwrdd ag esbonio ein cred ayb, cyhoeddusrwydd a chefnogaeth drwy’r wasg leol.”

2.10.13 Trafnidiaeth gyhoeddus:

- “Gwell cyfleusterau trafnidiaeth a gwell cyfarwyddiadau at nodau trafnidiaeth ac mewn ardaloedd cyhoeddus i bedestriaid.”
- “Trwyddedau trên am ddim i deithio yng Nghymru.”
- “Trafnidiaeth ratach a mwy cyraeddadwy”

2.10.14 Iechyd, gan gynnwys mynediad i wasanaethau a gwelliannau i gymhorthion ac addasiadau:


- “Tôn gwahanol i bob doctor mewn meddygfa, ond wedi codi hyn gyda’r feddygfa ei hun, cefais yr ateb ei fod yn ormod o drafferth ac nid yn ymarferol yn ariannol i newid unrhyw beth a fyddai o fudd y bobl gyda diffygion golwg yn yr ardal.”

2.11 Safonau Cenedlaethol

A ydych yn gwybod rhywbeth am safonau cenedlaethol a datganiadau o hawliau mewn cysylltiad â’r gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru?

- 2.11.1 Roedd ychydig o dan dreian, 30%, o’r 149 o ymatebwyr wedi ateb eu bod yn gwybod rhywbeth am y safonau cenedlaethol a’r datganiad o hawl (Gweler Ffigwr 13).


Ffigwr 13- A ydych yn gwybod rhywbeth am safonau cenedlaethol a hawliau?



Os ydych, plis dywedwch os rydych yn meddwl eu bod yn ddefnyddiol

- 2.11.2 O’r sawl a atebodd ie, roedd 65% yn credu eu bod yn ddefnyddiol. Roedd dau o’r ymatebwyr a atebwyd y cwestiwn blaenorol heb ateb y cwestiwn yma (gweler figure 14).

Ffigwr 14- A yw safonau cenedlaethol a hawliau yn ddefnyddiol?



2.11.3 Dyfyniadau dangosol sy'n teimlo bod safonau cenedlaethol a hawliau **yn** ddefnyddiol:

- “Mae'r Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs) grêt wrth atal ymddygiad poendod - maent wedi ymyrryd pan roeddwn i yn cael trwbl gyda chymdogion yn chwarae cerddoriaeth yn uchel iawn ac yn fy atal i rag cysgu. Roeddwn yn aml yn teimlo ofn cael fy mygio neu fy nhreisio pan allan ar ben fy hun yn y nos.”
- “Mae'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd yn rhoi rhai hawliau i bobl gydag anableddau ac wedi effeithio agweddau mewn ffordd bositif - ond fe all mwy cael ei wneud.”
- “Tra mewn datganiadau cenhadaeth egwyddor ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus fel CAFcass Cymru neu'r Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi yn iawn. Y gwirionedd yw eu bod yn aml ddim yn cael eu dilyn. Nid yw hyn yn ddadl am beidio cael yr un safonau, yn hytrach bod yna dull mwy llym.”
- “Maent yn ddefnyddiol i'r sawl sydd yn eu deall gan ein bod yn gwybod i ba faint mae'r llywodraeth yn medru cael eu dal yn gyfrifol. Fodd bynnag, mae iaith hefyd yn rhwystr mawr i'ch person llawr gwlad gyfartalog i'w ddeall.”
- “Maent yn rhoi meincnod fel eich bod yn medru gweld os yw gwasanaethau yn cwrdd â'r safon.”
- “Ceisio gwneud yn siŵr bod pawb yn derbyn yr un safon o ofal a bod gwasanaethau yn hawdd eu myned i bawb. Er efallai nad yw hyn o reidrwydd yr un achos mewn pob ardal, maent wedi gosod safon a dylai pob darparwr gwasanaeth geisio cwrdd.”

2.11.4 Dyfyniadau dangosol oedd yn teimlo bod safonau cenedlaethol a hawliau **ddim yn** ddefnyddiol:

- “Oherwydd bod sawl gwasanaeth ddim yn cydymffurfio gyda’r safonau neu ddim hyd yn oed yn gwybod amdany’n nhw.”
- “Dim gorfodaeth yn cael ei gynnal. Cynlluniau Cydraddoldeb Anabledd ddim yn cael ei gweithredu ac yn rhy anodd i senglion i ddilyn ffaeleddau.”
- “Pe bant yn cael eu dilyn byddai hyn yn gwella pethau.”
- “Rwy’n cael yr argraff bod y bobl sy’n cael eu rhoi mewn rheolaidd i fformiwleiddio’r polisiâu yma wedi eu copïo o bolisi Lloegr. Rwyf hefyd yn cael yr argraff eu bod yn defnyddio personél y GIG fel bod persbectif yr awdurdod lleol yn cael ei anghofio’n hawdd.”
- “Mae lefel gwasanaeth yn codi a gostwng ar draws y dywysogaeth - mae yna ddewisiadau a gwasanaethau cyfyng yn yr ardaloedd gwledig oherwydd dyraniad ariannu.”

3 Digwyddiadau Ymrwymiad

3.1 Cyflwyniad

- 3.1.1 Roedd rhaglen o chwe digwyddiad ymrwymiad wedi eu cynnal yn Nhachwedd 2007 ar draws Cymru. Roedd i ddigwyddiadau wedi'u cynnal yng Nghastell Nedd, Abertawe, Aberystwyth, Caernarfon, Wrecsam a Caerdydd.
- 3.1.2 Roedd y digwyddiadau (a'r holiadur) wedi eu cyhoeddi i 260+ o gyfundrefnau ar draws Cymru. Roedd cyfanswm o 96 o bobl wedi mynychu'r chwe digwyddiad ymrwymiad. Roedd hyn yn cynnwys cyfuniad o bobl yn mynychu fel senglion a chynrychiolwyr o gyfundrefnau.
- 3.1.3 Roedd pob digwyddiad ymrwymiad wedi ei gyfyngu i 20 o fynychwyr er mwyn sicrhau cydraddoldeb ac i alluogi cefnogaeth un wrth un, lle bod angen. Fodd bynnag, fel gyda'r holiadur, roedd yr ymatebion a'r prif bwyntiau a godwyd yn gyson ac mae hyn yn medru cael ei ddadlau taw dyma fyddai'r un stori pe byddai digwyddiadau ymrwymiad pellach wedi'u cynnal.
- 3.1.4 Anogwyd yr senglion a'r cyfundrefnau a gofrestrwyd i'r digwyddiad roedd yn methu mynychu i gwblhau'r holiadur.
- 3.1.5 Roedd y chwe gweithdy yn ffocysu ar:
- Darganfod beth mae bywyd fel ar hyn o bryd yng Nghymru ar draws holl linyddau cydraddoldeb a materion testun.
 - Cipio unrhyw rwystrau (go iawn a chanfod) mae cyfranogwyr yn profi oherwydd eu mater cydraddoldeb.
 - Ystyried pa flaenoriaethau sydd angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnwys yn y Cynllun Cydraddoldeb Sengl.
 - Cipio unrhyw ymarfer positif presennol o amgylch yr agenda hwn.
 - Adnabod unrhyw destunau astudiaeth achos posib (yn enwedig lle mae hyn yn torri ar draws mwy na un llinyn cydraddoldeb / testun ymrwymiad) ar gyfer datblygiad pellach i mewn i gyfres o wyth.

3.2 Crynodeb o ddigwyddiadau ymrwymiad

- 3.2.1 Mae atodiadau B i G yn cynnwys yr adroddiadau sengl ar bob un o'r chwe digwyddiad ymrwymiad. Mae crynodeb o'r pwyntiau lefel uchel o'r chwe digwyddiad isod.
- 3.2.2 Roedd pob un o'r llinyddau cydraddoldeb wedi eu cynrychioli yn y digwyddiadau: oed, anabledd, rhyw, hunaniaeth o ran rhywedd, ethnigrwydd, (gan gynnwys ymofynwyr noddfa, gweithwyr mudol a ffoaduriaid), crefydd a chred a chyfeiriadedd rhywiol.
- 3.2.3 Roedd yna nifer o enghreifftiau cadarnhaol o ymarfer da wedi eu trafod a'u dyfynnu. Gweler adran 6 ar gyfer enghreifftiau o ymarfer da.

3.2.4 Roedd yna pum prif thema wedi eu trafod yn y digwyddiadau roeddent yn teimlo bod angen gwelliannau. Roedd y rhain ynglŷn â materion o fynediad i wasanaethau a mynediad i gyfleoedd i bawb. Roedd y rhain yn arbennig yn y meysydd gofalwyr, gofal plant, tai, trafnidiaeth gyhoeddus a chodi ymwybyddiaeth o amrywiaeth.

3.2.5 Mae'r prif themâu yma yn cael eu crynhoi a'u dangos gan enghreifftiau fel sy'n dilyn:

Gofalwyr

3.2.6 Roedd yna deimlad bod angen cefnogaeth well mewn lle i alluogi i ofalwyr o bob oed gael mynediad i gyfleoedd. Gydag amcangyfrif o 90,000 o ofalwyr o bob oed ar draws Cymru, roedd y sawl roedd yn bresennol yn galw am fwy i gael ei wneud i sicrhau bod gofalwyr yn derbyn mwy o gefnogaeth i'w galluogi nhw i gymryd cyfleoedd ar draws pob agwedd o fywyd. Enghraifft o hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o ofalwyr ifanc mewn ysgolion.

Gofal Plant

3.2.7 Mae angen gweithrediad i alluogi darpariaeth o ofal plant o safon dda a fforddiadwy i bawb. Enghraifft a roddwyd yn cynnwys pryder dros ofal plant yn rhy ddrud gyda diffyg clybiau wedi ysgol. Roedd hefyd cais bod gofal plant a hyfforddiant yn cael ei ddarparu i famau a oedd yn dymuno neu angen dychwelyd i'r gwaith.

Tai

3.2.8 Roedd teimlad bod angen camau i alluogi tai cyraeddadwy, fforddiadwy a chynaliadwy i bawb.

3.2.9 Enghraifft a oedd yn dangos pwynt oedd y diffyg safon dylunio finimal i gartrefi sydd wedi arwain at brinder mewn cartrefi cyraeddadwy. Roedd mynychwyr yn teimlo bod y 'cynllun hawl i brynu' y sector gyhoeddus hefyd wedi cyfrannu at y diffyg drwy leihau'r nifer o gartrefi addas a allai cael eu haddasu i gwrdd ag anghenion yn well. Yn fwy cyffredinol, roedd mynychwyr yn teimlo diffyg greddf a cenedlaethol o dai fforddiadwy a dylwn fod yn edrych yn fwy agos ar yr angen o dai cynaliadwy.

Trafnidiaeth gyhoeddus

3.2.10 Roedd yna ddiffyg hyder yn y system trafnidiaeth gyhoeddus a oedd yn fater roedd y mynychwyr wedi trafod yn drylwyr yn ystod nifer o'r digwyddiadau ymrwymiad. Roedd hyn yn gymwys i dtrafnidiaeth mewn ardaloedd gwledig a threfol. Yn arbennig, mae yna angen rhagweladwy am well argaeledd a chostau. Er enghraifft, hyd yn oed lle mae un yn medru myned bws cyraeddadwy nid oes unrhyw sicrwydd bydd llawr isel neu gwrbyn isel mewn safle bws ar gael ar y siwrnai yn ôl. Yn debyg, nid yw pob tacsî yn gyraeddadwy. Roedd costau teithio a phrinder gwasanaethau ar nifer o drenau a llwybrau bws hefyd yn byrder ar draws y llinynnau cydraddoldeb.

Codi ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb

- 3.2.11 Codi ymwybyddiaeth o amrywiaeth a materion cydraddoldeb er mwyn atal anffafiaeth. Roedd teimlad bod angen addysg o amgylch mewn ysgolion, ymysg y cyhoedd ac yn y gweithle.
- 3.2.12 Dylai hyn gael ei gefnogi gan yr ategiad o ddeddfwriaeth sydd eisoes mewn lle. Yn barod mae yna nifer o ddeddfau mewn lle i helpu gyda'r agenda cydraddoldeb ond roedd rhai o'r mynychwyr wedi nodi nad oedd y rhain o hyd yn cael eu gweithredu a'u cynnal. Roedd barn wedi ei fynegi gan rhai o'r mynychwyr bod ymarfer anffafriol dal yn digwydd, er gwaethaf deddfwriaeth.
- 3.2.13 Roedd ysgolion yn enghraifft a rhoddwyd o ardal lle'r oedd angen addysg amrywiaeth pellach. Er enghraifft, mewn ysgolion mae yna yn aml ddiffyg gwybodaeth ynglŷn â chyfeiriadedd rhywiol a modelau teuluol anghonfensiynol. Roedd y teimlad hefyd nad oedd rhai ysgolion o hyd yn adnabod lle'r oedd hiliaeth, homoffobia ac alluaeth wedi cymryd lle.
- 3.2.14 Mae yna angen i gyfeirio at broblemau agwedd (h.y. Anwybodaeth a diffyg gwybodaeth) sy'n arwain at anffafiaeth, er enghraifft drwy ddarparu addysg orfodol a hyfforddiant yn y llinynnau cydraddoldeb.
- 3.2.15 Mewn rhai digwyddiadau ymrwymiad roedd yna deimlad y byddai o gymorth i LICC i ystyried dynesiad mwy trawstoriadol i hawliau dynol yn hytrach nag edrych ar gydraddoldeb ar sail llynol.
- 3.2.16 Y flaenoriaeth yw'r angen i ystyried y trawiad o'r polisïau cyn gweithrediad. Teimla'r mynychwyr bod angen i'r holl bolisïau cael eu 'profi'n gydraddol' mewn rhyw ffordd a bod angen golwg eang i sicrhau bod grwpiau/senglion penodol heb anfantais gan y trosglwyddiad o unrhyw bolisi/strategaeth yng Nghymru. Roedd yna alwad cry gan fynychwyr taw cyfrifoldeb yr 'arbenigwyr' i ddeall yr agenda.

Mynediad cyfartal i wasanaethau craidd

- 3.2.17 Roedd mynediad cyfartal a chyfleoedd i'r holl wasanaethau craidd yn thema waelodol, galluogi mynediad cyfartal i addysg a hyfforddiant, gwasanaethau iechyd, ac yn y gweithle. Mae hyn yn cyfeirio at fynediad corfforol ond hefyd mewn termau mwy strategol o fynediad i gyfleoedd a darparu llwyfan i bawb, gan gynnwys y sawl sydd fwyaf o dan anfantais o fewn y gymdeithas.

4 Grwpiau anodd eu cyrraedd

4.1 Crynodeb

- 4.1.1 Wedi i'r chwe digwyddiad ymrwymiad gael eu cynnal a'r 100 cyntaf o ymatebion yr holiaduron wedi eu cwblhau, roedd hi'n bosib rhoi dyfarniad i'r llinynnau cydraddoldeb nad oeddent wedi eu cynnwys eto, a hefyd pa llinynnau roedd angen ymrwymiad pellach.
- 4.1.2 Y grwpiau roedd wedi eu hadnabod fel y rhai anodd eu cyrraedd ac angen ymrwymiad pellach roedd y llinynnau cydraddoldeb canlynol: anabl ifanc, ethnigrwydd (gan gynnwys lleiafrifoedd ethnig, ymofynwyr noddfa, ffoaduriaid a gweithwyr mudol), Sipsi a theithwyr, a chrefydd a chred.
- 4.1.3 Roedd ymrwymiad cychwynnol gyda grŵp anodd eu cyrraedd, y llinyn hunaniaeth o ran rhywedd, wedi ei wneud ym mis Hydref 2007. Pwrpas hyn roedd cynnal peilot a hysbysebu'r holiadur a gweithgaredd dyweddiad a hefyd i ennill barn arbenigol a phrofiadau'r grŵp anodd eu cyrraedd penodol. (gweler adran 4.2).
- 4.1.4 Mae'n bosib dyfarnu hyn fel ymarfer llwyddiannus oherwydd yn ogystal ag ennill barn o'r digwyddiad, roedd canran cymharol uchel (5%) o'r holiaduron wedi eu cwblhau nes ymlaen gan y llinyn cydraddoldeb yna. Er nad oes unrhyw ffigyrau cytunedig, mae'r cyffredinrwydd o draws rywioldeb yn orllewin Ewrop wedi ei amcangyfrif yn hanesyddol bod un mewn 6,000, ond fe allai fod yn agosach i un mewn 500 i un mewn 2,000. (Olyslager a Conway 2007). Byddai un mewn 500 yn cyfartalu i tua 0.2% o boblogaeth Cymru.
- 4.1.5 Mi roedd yna rhai llinynnau, yn enwedig y gymuned sipsi, roeddem wedi cysylltu ond methu cysylltu yn uniongyrchol. Roedd hyn oherwydd amryw o ffactorau: ymateb araf gan y sefydliadau neu senglion a dargedwyd, anawsterau mewn trefnu cyfarfodydd, ac amharodrwydd gan rhai o'r cymunedau i ymrwymo yn uniongyrchol.

4.2 Unique (Rhwydwaith Traws Rhywiol)

- 4.2.1 Roedd digwyddiad ymrwymiad cydraddoldeb sengl wedi ei gynnal yng nghyfarfod mis Hydref o 'Unique', y Rhwydwaith Traws Rhywiol gogledd Cymru, sy'n cyfarfod yn fisol mewn gwesty ym Mae Colwyn.
- 4.2.2 Mae Unique yn grŵp cymorth i bobl Draws Rywiol (TG yn Saesneg), eu teuluoedd a'u ffrindiau. Mae'r rhwydwaith Unique ar hyn o bryd yn dechrau dosbarthu eu taflenni gwybodaeth i bob meddygfa doctor, meddygfeydd deintydd, canolfannau iechyd, llyfrgelloedd a grwpiau dinesig a cymunedol ar draws Gogledd Cymru.
- 4.2.3 Er bod y prif linyn cydraddoldeb a gyfeiriwyd ato yn Hunaniaeth o ran rhywedd, roedd hyn hefyd yn gorchuddio'r llinynnau cydraddoldeb sengl o oed, anabled, cyfeiriadedd rhywiol a rhyw.
- 4.2.4 Roedd tua 35 o bobl wedi mynychu. Roedd y rhain yn cynrychioli ystod lawn y gymuned draws rywiol (ond dim y gymuned rhyng-rywiol):

senglion traws rhywiol cyn llawdriniaeth (pre-op), senglion traws rhywiol ar ôl llawdriniaeth (post-ops), traws rywiol di-llawdriniaeth, trawsrywiol, partneriaid, perthnasau eraill a ffrindiau.

4.2.5 Roedd manylion cyswllt a chyhoeddusrwydd yn amlinellu'r digwyddiadau ymrwymiad a'r holiadur wedi eu dosbarthu. Roedd dau grŵp cynorthwyedig, pob un gydag wyth o bobl, wedi ei gynnal yn ystod y noswaith. Roedd y grwpiau yma yn cynnwys pobl o ar draws y sbectwm o bobl draws rhywiol a'r sawl roedd wedi eu heffeithio o ganlyniad i anhwylddeb hunaniaeth o ran rhywedd.

4.2.6 Roedd y ddau grŵp yma yn cynnwys, er enghraifft: dwy ddynes wedi llawdriniaeth 29 mlwydd oed: trawsrywiol 58 mlwydd oed heb gael llawdriniaeth; gwraig rhywun trawsrywiol ers 25 mlynedd lle'r oedd ei gŵr hi ond wedi dod allan iddi yn y flwyddyn ddiwethaf; trawsrywiol 75 mlwydd oed sydd wedi bod yn gwisgo'n groes ers 60 mlynedd; a trawsrywiol 45 mlwydd oes a oedd tro cyntaf erioed allan fel 'ên femme'.

Unique – prif bwyntiau a ddeilliwyd

4.2.7 Gofid pennaf y ddau grŵp roedd diffyg gwybodaeth, cefnogaeth a dealltwriaeth o draws rywioldeb o fewn y gwasanaeth iechyd. I nifer o bobl eu pwynt cychwynnol o gyswllt o fewn y GIG i drafod eu cyflwr yw gyda'u Meddyg Teulu. Roedd hi'n ymddangos bod dealltwriaeth fach iawn o fewn y meddygon teulu a gyfeiriwyd atynt ar unrhyw agwedd o anhwylddeb hunaniaeth o ran rhywedd e.e. Y gwahaniaeth sylfaenol rhwng trawsrywiol a traws wisgwyr. O ganlyniad, ar y prydau gorau, roedd hyn yn arwaith at sefyllfa o rwystredigaeth i nifer o gleifion trawsrywiol, a'r anallu iddynt gael eu darparu gyda chyfeiriadau priodol a thriniaeth i'w cyflwr.

4.2.8 Roeddent yn gytûn bod derbyniad a dealltwriaeth y gymdeithas o'r gymuned draws rywiol wedi gwella yn fawr yn yr ugain mlynedd ddiwethaf. Mae hyn yn cael ei ystyried oherwydd yr hysbyseb cynradd o'r rhyngrwyd, a'r nifer o grwpiau hunan gymorth ar y rhyngrwyd, rhannu profiadau a rhwydweithiau cefnogaeth sydd wedi eu ffurfio gan bobl draws rywiol.

4.2.9 I'r sawl hynny sydd ddim 'allan' mae yna bryder cyfredol o gael eu hadnabod yn 'ên femme' gan gymdogion, cydweithwyr, teulu neu ffrindiau. Roedd yr ofn yma oherwydd y posibilrwydd o gael eu gwatwar, alltudio, camdriniaeth eiriol neu gorfforol. Rheswm am y nifer uwch o fynychwyr mewn cyfarfod na'r arfer (mae gan amlaf tua 20), oherwydd y nosweithiau tywyll cynyddol yr amser hwn o'r flwyddyn. Mae nifer o bobl draws rhywiol yn teimlo'n fwy cyfforddus mynd allan yn y tywyllwch oherwydd mae llai o siawns iddynt gael eu gweld.

4.2.10 Roedd pryderon wedi eu codi hefyd dros gael eu 'darganfod' yn y gwaith a'r ffaith y gallai hyn arwain at ddiswyddo neu watwar. Roedd un aelod wedi rhoi sylw: "Mae deddfau anffafiaeth Hunaniaeth Rywiol

yn dda iawn mewn theori ond mae'n amhosib amddiffyn eich hun gyda hynna ar lawr y ffactori neu os yw bos yn ceisio cael eich gwared”.

4.2.11 Teimlwyd bod y straen o fyw gyda'r cyflwr, heb neu gyda rhwydwaith cefnogaeth yn medru arwain at iselder ysbryd, ymosodiadau pryderon, teimladau o annigonolrwydd ac ofn camdriniaeth neu golled o rywun maent yn caru.

4.2.12 Ffyrdd ymlaen a fyddai'n helpu lleddfu'r problemau sy'n cael eu hwynebu a awgrymwyd yn cynnwys:

- Codi ymwybyddiaeth y cyflwr ar draws y gwasanaeth iechyd.
- Codi ymwybyddiaeth y cyflwr ymysg y cyhoedd yn gyffredinol, yn yr un math o ffordd mae rhywiaeth, hiliaeth a homoffobia wedi gwrthwynebu yn y ddegawd ddiwethaf.
- Codi ymwybyddiaeth y cyflwr o fewn y gweithle, sectorau cyhoeddus a preifat.

4.3 Grŵp Cefnogi Ffoaduriaid ac Ymofynwyr Noddfa Wreccsam (WRASSG)

4.3.1 Cynhaliwyd cyfarfod yn Ionawr 2008 gyda'r Swyddog Datblygu yn WRASSG (Grŵp Cefnogi Ffoaduriaid ac Ymofynwyr Noddfa Wreccsam).

4.3.2 Mae WRASSG yn cynnig gwybodaeth a chefnogaeth mewn nifer o ffyrdd, o gynrychiolaeth gyfreithiol i fwyd a lloches

- Maent yn gallu darparu cyfreithiwr 24 awr y dydd i ffoaduriaid ac ymofynwyr noddfa.
- Drwy gynllun cyfraniadau sy'n cael ei gefnogi gan elusennau lleol a'r cyhoedd maent yn medru cynnig bwyd (ffrwythau a llysiau), dillad, dillad gwely a dodrefn. Mae'r rhain yn cael eu storio mewn warws sy'n cael ei ddarparu gan y cyngor.
- Mae WRASSG hefyd yn gallu myned cronfa brys i ddarparu pobl gydag eitemau angenrheidiol fel par o esgidiau.

4.3.3 Mae ymofynwyr noddfa yn wynebu rhwystrau ym mhob ardal o'u bywydau mewn gwlad llw. Nid oes gan y sawl sy'n llwyddo i adael eu gwlad a chyrraedd Cymru unrhyw hawliau wrth gyrraedd y wlad llw.

4.3.4 Y ddau brif flaenoriaeth sydd angen gan y gymuned ymofynwyr noddfa yw mynediad llawn i ofal iechyd, a hyfforddiant ESOL (Saesneg i siaradwyr o ieithoedd eraill) Mae'n well gan hyfforddiant ESOL i drosglwyddo drwy amryw o ddulliau gan gynnwys canolfannau galw-i-mewn a hyfforddiant cartref un wrth un.

Rhwystrau: Tai

4.3.5 Mae ymofynwyr noddfa yn derbyn mynediad i dai sy'n cael ei ddarparu drwy'r Cymdeithasau Tai ac yn cael eu darparu gyda 70% o'r lwfans cymorth incwm safonol. Mae hyn yn cyfartalu ar hyn o bryd i £41 yr

wythnos. Nid oes gan ymofynwyr noddfa'r hawl cyfreithlon i geisio gwaith sy'n talu yn y DU.

4.3.6 Maent felly ar unwaith, gan amlaf, a rhwystr o amddifadedd economeg wedi'u trethi arnynt. Er nag yw holl ymofynwyr noddfa yn y DU yn dlawd, mae'r rhan fwyaf yn. Mae methu ceisio gwaith sy'n talu dim ond yn gwaethygu'r sefyllfa.

4.3.7 Mae ymofynwyr noddfa hefyd yn gyfyngol ym mhle yn y wlad maent yn medru byw ac nid ydynt yn medru ymarfer unrhyw hawl i ddewis. Maent yn gyfyngedig i fyw mewn un o bedwar ardal: Caerdydd, Castell Nedd, Abertawe neu Wrecsam.

Rhwystrau: Mynediad i wasanaethau iechyd

4.3.8 Mae'r llywodraeth yn cyfyngu mynediad i wasanaethau gofal iechyd cynradd ar gyfer pob ymofynnwr noddfa sydd wedi methu. Fe all hyn arwain at ymofynwyr noddfa sy'n apelio yn erbyn y fath rheoliad ac yn cael ei dal mewn apêl am hyd at saith mlynedd, ac yn methu myned yn llawn gwasanaeth iechyd yn ystod yr amser hwn.

4.3.9 Fe all y cyfyngiad yma arwain at gymhlethdodau pellach. Er enghraifft, mae WRASSG yn rhoi sylw ar sut mae hi wedi ei ddangos gan broffesiynol gofal iechyd meddyliol bod ymofynwyr noddfa yn fwy tueddol i broblemau iechyd meddyliol nag aelodau eraill y gymuned.

Rhwystrau: Addysg a hyfforddiant

4.3.10 Y gofyn addysgiadol pwysicaf i ymofynwyr noddfa yw hyfforddiant ESOL. Mae WRASSG yn datgan sut mae blynyddoedd o doriadau wedi eu gwneud mewn darpariaeth a hyfforddiant ESOL, a bod angen cynyddu'r hyfforddiant ESOL i ieithoedd eraill, yn enwedig i'r ieithoedd cyntaf yr ymofynwyr noddfa.

4.3.11 Mae yna gyfyngiadau mewn beth sydd ar gael i ymofynwyr noddfa a ffoaduriaid o ran hyfforddiant galwedigaethol, er enghraifft cyfleoedd i hyfforddi fel person trin gwallt neu blymwr.

4.3.12 Mae hyfforddiant academig hefyd yn gyffredinol yn gyfyng. Mae cael lle mewn prifysgol hefyd yn llwythog gydag anawsterau ariannol gan eu bod wedi eu dosbarthu fel myfyrwyr dros y môr ac felly yn gorfod talu costau uwch.

Rhwystrau uniongyrchol ac anuniongyrchol

4.3.13 Fel mae ymofynwyr noddfa yn cael eu heithrio gan gyfraith o waith sy'n talu mae'n rhaid iddynt ddibynnu ar grwpiau cymorth fel Cyngor Ffoaduriaid Cymru a WRASSG am angenrheidiau sylfaenol fel bwyd, dillad a mynediad i gyfreithwyr.

4.3.14 Mae'r gymuned ymofynwyr noddfa yn Wrecsam yn boblogaeth wahanol iawn i gymharu gyda chymunedau yn Ne Cymru. Mae'n cynnwys tua 70 sengl yn o 39 gwahanol wlad. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anoddach i gymunedau i ffurfio ac i gefnogi ei gilydd.

- 4.3.15 Mae hiliaeth yn rhwystr, yn erbyn ymofynwyr noddfa wen ac ymfudwyr o orllewin Ewrop ac i'r sawl sydd ddim yn wyn o Affrica ac Asia.

Cymuned

- 4.3.16 Mae cynllun positif sy'n gweithio yn y gymuned wedi ei sefydlu gan glwb pêl-droed Wrecsam. Mae'r clwb yn rhedeg sesiynau hyfforddi rheolaidd lle mae ymofynwyr ifanc yn medru cymryd rhan. Mae hyn yn cynnwys yr ymofynwyr noddfa yn y gymuned ac o hyn mae'r clwb pêl-droed yn gobeithio datguddio talent gudd a phêl-droedwyr proffesiynol y dyfodol.

5 Astudiaethau Achos

5.1 Trosolwg o'r astudiaethau achos

- 5.1.1 Roedd wyth astudiaeth achos wedi eu hymgymryd. Roedd y rhain wedi eu dewis o'r senglion a gymerodd rhan yn y rhaglen o weithgareddau. Roedd yr astudiaethau achos yn cynnwys cyfweiliadau wyneb yn wyneb, wedi eu selio ar fframwaith yn adlewyrchu ardaloedd tebyg i'r holiaduron a'r digwyddiadau ymrwymiad. (Gweler Atodiad I).
- 5.1.2 Roedd yr wyth sengl yn a dewiswyd wedi rhoi caniatâd i gael eu cysylltu am ymchwil pellach wedi cael eu hadnabod drwy un neu fwy o'r tri llwybr: roeddent wedi cwblhau'r holiadur, mynychu un o'r digwyddiadau ymrwymo neu wedi bod mewn cysylltiad ar ôl darllen cyhoeddusrwydd am y cynllun cydraddoldeb sengl.
- 5.1.3 Roedd yr astudiaethau achos wedi eu dewis i geisio sicrhau cynrychiolaeth gyfartal ac eang ar draws y llinynnau cydraddoldeb.
- 5.1.4 Y llinynnau cydraddoldeb a drafodwyd gan yr astudiaethau achos roedd oed, anabledd, ethnigrwydd (gan gynnwys ymofynwyr noddfa), rhyw, hunaniaeth o ran rhywedd, crefydd a chred a chyfeiriadedd rhywiol.

5.2 Astudiaeth Achos 1- Ann yn Aberystwyth

Bywyd cynnar

- 5.2.1 Roedd Ann wedi'i geni yn Lloegr yn 1951 ac wedi symud i Gymru yn 1987 yn 36 mlwydd oed. Roedd ei rhieni o etifeddiaeth Ewropeaidd gymysg ond mi roedd hi wedi ei chodi o fewn diwylliant Catholig Gwyddelig gan ei mam a oedd yn rhiant sengl ar ôl 1956. Roedd ei theulu yn ddosbarth gweithio ac yn dlawd. Mae gan Ann dyslecsia ac roedd ychydig iawn wedi ei ddeall am y cyflwr yn ystod ei chyfnod hi o blentyndod.
- 5.2.2 Yn naw mlwydd oed roedd Ann wedi dod yn ymglymedig ag ymgyrchoedd gwleidyddol. Roedd y diddordeb wedi ei sbarduno gan etholiad cyffredinol 1960 ac roedd hi wedi ymuno a'r Blaid Ryddfrydol. Roedd hi wedi dechrau gwneud gwaith achos yn 12 mlwydd oed. Mae hi'n credu taw dyma ble ddechreuodd ei nwyd am iawnderau dynol.
- 5.2.3 Roedd hi wedi ei hethol fel cynghorydd awdurdod lleol yn 1982, ac yn Arweinydd y Grŵp Rhyddfrydol ar awdurdod pwysig. Roedd hi nifer o weithiau yn ymgeisydd Seneddol i'r DU a'r Senedd Ewropeaidd.

Dynes mewn busnes

- 5.2.4 Roedd Ann wedi symud i Gymru yn 1987 gyda'i ail gwr i sefydlu busnes eu hun. Roedd hi wedi disgrifio heriau roedd hi wedi profi mewn perchen yn rhannol ar fusnes o ganlyniad o agwedd pobl tuag at fenywod. Roedd rhai pobl yn pallu eu darparu gyda phrisiau ac yn

mynnu danfon manylion i'w gwr. Roedd hyn wedi digwydd hyd yn oed pan roedd hi'n prynu cerbyd er bod ei gwr yn methu gyrru a'i bod hi'n berchen ar y cerbyd roedd hi'n ceisio ei rhan-gyfnewid. Roedd rheolwyr banc yn pallu ei gweld hi ar ben ei hun ac yn dweud eu bod eisiau 'delio gyda'r bos' gan dybio taw dyn oedd e. Nid yw Ann yn credu bod y sefyllfa hon wedi gwella yn fawr yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf. *"Mae Cymru 20 mlynedd tu ôl i Loegr mor bell a bod cydraddoldeb yn y cwestiwn."*

Mynediad i gartrefi addas

5.2.5 Roedd Ann wedi ffeindio llety rhent i'w theulu ond doedd y perchennog ddim yn hapus ynglŷn â'r addasiadau posib roedd angen gwneud i wneud y tŷ yn addas ar gyfer Ann, defnyddiwr cadair olwyn. Roedd y teulu wedi ymgeisio i'r cyngor am gartref addas a derbyniwyd tri chynnig, a'r tri yn anaddas. Roedd Ann wedi dweud bod y tai yn "anaddas" gan nad oedd un ohonynt wedi eu haddasu i gyrraedd anghenion pobl anabl (nid yn unig pobl mewn cadair olwyn), a *"Beth roeddem wedi galw amdano oedd - drwy LICC - cofrestr o dai addasedig a cyraeddadwy wedi'u crynhoi gan berchnogion cymdeithasol."*

5.2.6 Mae hi'n teimlo bod hyn yn amlygu'r diffyg tai addas yn gymdeithasol ar gael yn yr ardal i ddefnyddwyr cadair olwyn. Mae Ann a'i gwr yn awr yn byw mewn cartref sydd wedi ei addasu gan ddefnyddio grant atgyweirio a gwella.

Mynediad i addysg

5.2.7 Yn 1991 roedd Ann wedi derbyn lle ym Mhrifysgol Llambedr-Pont-Steffan i ymgymryd â gradd mewn astudiaethau Fictorianaid. Roedd ei hiechyd wedi dirywio yn ystod y cyfnod yma ac roedd hi'n methu parhau yn y Brifysgol ond roedd hi wedi dweud fel defnyddiwr cadair olwyn roedd hi'n gweld y campws yn y Brifysgol yn anghyraeddadwy ac yn methu mynd o gwmpas. Roedd hi wedi ceisio cofrestru yn y blynyddoedd mwy diweddar i wneud cwrs dysgu pellter gyda'r Cyngor Sgiliau drwy Gyngor Dysgu Cymru. Fodd bynnag, roedd y cwrs (ar-lein yn bennaf) angen presenoldeb mewn ysgol haf am wythnos yn ogystal â chyfarfod misol gan y tiwtor, ac nid oedd un o'r lleoliadau a gynigir o fewn Cymru yn gyraeddadwy.

5.2.8 Rhwystr arall gyda hyn oedd, er mwyn i'r Brifysgol adnabod ei dyslecsia roedd angen datganiad ac roedd hyn yn costio £500. *"Roeddech yn derbyn yr arian yn ôl yn y pen draw ond mae'n medru cymryd hyd at chwe mis."*

5.2.9 Roedd Ann wedi rhoi sylw yn gyffredinol ar Brifysgolion yng Nghymru, eu bod ddim yn hyrwyddo'r gefnogaeth a'r cyfleusterau a allai cael ei wneud i fyfyrwyr anabl. Mae hi'n cael ei adael i senglion i ddarganfod dros eu hun. Mae hi'n teimlo y gallai Prifysgolion gymryd dynesiad mwy gweithredol i amlygu'r gefnogaeth a chymorth sydd ar gael.

Trafnidiaeth

- 5.2.10 Mae gan Ann gar symudedd sy'n ei galluogi hi i gynnal ei annibyniaeth a rhyddid. Mae'n hi'n ei weld yn rhyddhad a hebddo mi fyddai'n methu gadael y tŷ yn hawdd. *"Mae'n gynllun arbennig sydd wedi fy ngalluogi i i gadw fy annibyniaeth a rhyddid. Rwy'n methu mynd i unman heb fy nghar - mae'n gymaint o ryddhad."* Fodd bynnag mi roedd hi wedi rhoi sylw ar y diffyg mannau parcio anabl wedi'u lleoli yn addas yn Aberystwyth. Roedd Ann hefyd wedi dweud bod y bysiau parcio a theithio ddim yn gyraeddadwy i gadeiriau olwyn ac er bod yr orsaf rheilffordd yn gyraeddadwy, nid yw'r trenau. Roedd Ann wedi rhoi sylw ar y cyfyngiadau o opsiynau trafnidiaeth eraill *"Mae'r cynllun Mudoleddd Siop ond yn gweithio o 10 y.b. i 3.30 y.p."*
- 5.2.11 Roedd hi hefyd wedi nodi bod y drwydded bws sy'n cael ei ddyrannu gan yr awdurdodau lleol (ond yn cael ei dalu gan y LICC) i bobl anabl yn ddiwerth i bobl gyda phroblemau mudoledd sy'n methu cyrraedd bysiau anghyraeddadwy neu gyrraedd stopiau bws sydd mewn mannau anghyraeddadwy. Mae hyn yn cael ei waethygu gan ffactorau gwledig.

Mynediad i adeiladau cyhoeddus

- 5.2.12 Roedd Ann wedi siarad am ei phrofiad o fyned adeiladau lleol yn arbennig yn Aberystwyth. Nid yw hi'n medru myned y llyfrgell leol. Mae'r gloch i alw am gymorth allan o'i chyrraedd ac er bod yna blatfform (ddim yn gweithio ar hyn o bryd) i fynd a defnyddwyr cadair olwyn i mewn i'r brif lyfrgell nid yw hi'n bosib myned y llyfrgell cyfeirnod o gwbl. Roedd hi hefyd wedi rhoi sylw bod toiledau anabl yn y dref ddim o hyd wedi eu dylunio i Safonau Prydeinig ac mae yna angen ar gyfer Ardaloedd Newid mewn toiledau sy'n darparu at ystod fwy eang o anabledau.
- 5.2.13 Mae Ann yn pryderu y dylai adeiladau gyrraedd rhan M o'r Rheoleiddiadau Adeiladau 2001 (y rhai sy'n cael eu defnyddio yn awr) ac i Safonau Prydeinig BS8300, a dylai bod grantiau sy'n cael eu dyrannu o dan ariannu Amcan Un yn cyrraedd y safonau yma fel sy'n cael ei nodi yn y rheoleiddiadau ariannu ond nid yn cael eu plismona i sicrhau cydymffurfiad.
- 5.2.14 Roedd Ann wedi trafod problem roedd hi wedi profi mewn siopau dillad - mae'r ystafelloedd yn aml ddim yn ddigon mawr i gadair olwyn ond hefyd, nid yw siopau yn ymadael i ofalwr o wahanol ryw fynd i mewn i ystafell newid i gynorthwyo gyda newid.
- 5.2.15 Roedd Ann yn bositif iawn am y ganolfan gelf newydd yn Aberystwyth. Roedd hi wedi ei chynghori gyda'r dylunio ac yn teimlo bod agwedd bositif y gweithwyr a'r parodrwydd i wrando a chynnwys pobl anabl yn y datblygiad wedi bod yn allweddol i'r llwyddiant yr adeilad yma. Mae hi'n teimlo bod agwedd yn aml yn anoddach i oresgyn na rhwystrau corfforol.

- 5.2.16 Roedd hi wedi cyngori gyda'r GIG ynglŷn â chynllun ysbyty newydd yn yr ardal. Roedd y GIG wedi gwrandio "*ar y feirniadaeth fanwl roedd hi wedi gwneud o'r cynllun ond wedi methu eu cymryd y materion i mewn i ystyriaeth. Maent wedi dysgu eu gwers ers hyn (yn amlwg mae'r namau dylunio a rhagfynegwyd wedi dod yn wir) ac yn awr yn cyngori.*" Mae Ann a'i gwr yn derbyn ariannu drwy'r Siambr Masnach i siarad â busnesau lleol ynglŷn â'r Ddeddf Anffafiaeth Anabledd ond nid yw hi'n teimlo bod hyn yn cael ei gymryd i mewn gan fusnesau.

Mynediad i wasanaethau iechyd

- 5.2.17 Mae gan Ann wyth cyflwr iechyd hirbarhaol ac nid oes un ysbyty sy'n gallu trin yr holl gyflyrau yn yr ardal. Yng Nghymru wledig mae hyn yn gallu golygu teithio pellterau hir i fyned gofal iechyd. Nid oes gan nifer o wardiau yn ysbyty Bronglais yn Aberystwyth toiledau cyraeddadwy ac mae cleifion anabl yn cael cynnig comôd. Roedd Ann wedi rhoi sylw bod nifer o feddygon ddim i weld yn deall y model cymdeithasol o anabledd.

Gwragedd mewn gwleidyddiaeth a bywyd cyhoeddus

- 5.2.18 Mae Ann o hyd yn ymglymedig iawn mewn gwleidyddiaeth ac ymgyrchu. Hi yw Ysgrifenyddes Gyffredinol y Blaid Ryddfrydol Cymraeg ac yn Gadeirydd y Pwyllgor Safonau'r Cyngor Sir leol. Mae hi'n pryderi nad oes digon o fenywod yn ymglymedig mewn gwleidyddiaeth yng Nghymru. "*Dim ond pedwar allan o'r 42 Cynghorwyr Sir yng Ngheredigion sy'n fenywod. Mewn cyfarfod pleidiau gwleidyddol roedd e wedi'i ddominyddu gan ddynion (50 o ddynion allan o 53). Yna, roeddent wedi agor y drysau ac mi ddaeth 30 o fenywod i mewn i weini'r te.*"
- 5.2.19 Mae Ann yn angerddol ynglŷn ag iawnderau dynol. Mae hi'n teimlo ei fod yn darparu ffocws ac agenda cyffredinol i bob grŵp sy'n disgyn o fewn a thu hwnt i'r fframwaith cydraddoldeb.

5.3 Astudiaeth Achos 2- Robert yn Ynyshir

Bywyd domestig

- 5.3.1 Mae Robert yn rhiant sengl ac yn ofalwr cynradd i dri o blant 11 mlwydd oed, wyth a chwech. Mae gan ei fab syndrom Asperger ac mae gan ei ferch ieuengaf parlys yr ymennydd (parlys pedwar aelod).
- 5.3.2 Roedd e wedi rhoi'r gorau i'w waith i fod yn ofalwr cynradd saith mlynedd yn ôl, pan oedd yn disgrifio ei hun fel "*peiriannydd awyren oedd ddim hyd yn oed yn gwybod sut i weithredu'r peiriant golchi.*" Mae e yn awr yn fedrus ym mhob tasg ddomestig ac yn ymgyrchu yn erbyn y nifer o rwysrau sefydliadol sy'n parhau i herio hawliau ei deulu i safon resymol o ofal a safon bywyd.

Mynediad i Wasanaethau Iechyd

- 5.3.3 Mae Robert a'i deulu wedi myned nifer o wasanaethau GIG yng Nghymru ac yn bositif am ran fwyaf o'r gwasanaethau. Mae e'n son yn arbennig am y llawfeddyg orthopedig yn ysbyty Brenhinol Morgannwg a'r ymgynghorwyr paediatreg, therapyddion galwedigaethol a llawfeddygon llygaid mewn clinigau lleol.
- 5.3.4 Mae yna nifer o faterion wedi bod gyda mynediad i ofal iechyd. Un enghraifft oedd y gwrthodiad o un clinigwr i roi'r driniaeth botocs angenrheidiol i ferch Robert ar sail cost. Wedi dilyn ymlaen llawer roedd y penderfyniad wedi ei wrthdroi. Fodd bynnag roedd amseri'r driniaeth ar ddydd Sul yn golygu bod yn rhaid i Robert a'i ferch i sefyll dros nos ym Mhenarth ac roedd rhaid cael gofal plant ar gyfer nos Sadwrn a thriwyr dydd ddydd Sul.
- 5.3.5 Roedd mab Robert gyda syndrom Asperger yn mynychu clinig unwaith y flwyddyn o dan Dr Lahtif sy'n arbenigwr cenedlaethol ar anhrefn cyfathrebu. Er yn wasanaeth arbennig, mae Robert yn ymwybodol y byddai mwy nag un apwyntiad y flwyddyn yn fwy buddiol.
- 5.3.6 Mae Robert yn ystyried bod y wasanaeth iechyd yng Nghymru yn gwneud eu gorau ond yn teimlo bod y system UDA yn medru cynnig rhai gwasanaethau sydd ddim ar gael yn y DU, megis doctor ym mhob gwesty.
- 5.3.7 Mae yn ystyried y gwasanaeth iechyd yn ne Cymru i fod a chyfarpar ar gyfer gwneud llawer mwy ar gyfer y rhai anabl meddygol na'r sawl sydd ag anableddau cudd. Mae e'n rhoi'r adolygiad blynyddol o syndrom Asperger fel enghraifft: *"Fel rhiant rwy'n gwybod fy mod yn dda nawr, ond cyn i mi ddysgu roedd angen mwy o gysur [na'r oedd e wedi derbyn] i allu gweithio gyda'r plant ar sail o ddydd i ddydd. Mae llawer o bobl yn methu dysgu fel fi felly pam y dylai eu plant oddef o ganlyniad?"*

Mynediad i Addysg

- 5.3.8 Roedd mab Robert wedi ei diagnosio gyda syndrom Asperger pan yr oedd yn y feithrinfa, a drwy ddarllen llyfrau seicoleg addysgiadol mae Robert wedi gallu dysgu a chefnogi ei fab y gorau mae gallu. Mae yna nifer o heriau ym mywyd dyddiol mae mab Robert yn ei weld yn anodd mae y rhan fwyaf o blant ddim hyd yn oed yn meddwl amdanynt megis cyfarfod a phyllau tywod, gratiau metel, neu synau ac aroglau gwahanol.
- 5.3.9 Mae Robert wedi cael nifer o heriau i gael ei ysgol leol (lle mae tri o'i blant yn mynychu) i osod y cymorth ac addasiadau angenrheidiol, hyd yn oed ar ôl iddynt gael rhybudd hir (megis toiledau anabl). Mae e'n teimlo hyd yn oed pan oedd addasiadau wedi eu cynnal roeddent yn dueddol o fod yn y ffordd roedd yr ysgol ei heisiau yn hytrach nag i'r fanyleb angenrheidiol. Mae Robert ar un tro hyd yn oed wedi rhoi ei waith i oruchwylio'r cynlluniau a mesur i fyny gyda'r ysgol dim ond i

ddarganfod (drwy siarad gyda'r gweithiwr yn y cwestiwn) bod yr ysgol heb gymryd hyn i mewn i ystyriaeth

- 5.3.10 Mater arall gydag addysg yw pan oedd ei ferch yn methu dod ymlaen gydag un gofalwr roedd hi wedi profi yn anodd iawn i newid. Pan oedd Robert wedi gofyn i geisio gwneud newid, roedd e'n teimlo ei fod yn cael ei gwrdd â heriau a bod *“y Trydydd Ryfel Byd wedi dilyn.”*

Cymuned

- 5.3.11 Mae tua thraean o'r cymdogion yn gefnogol iawn ac mi fydden nhw yn, er enghraifft, cynnig rhoi lifftiau ac archebu tocynnau i ddigwyddiadau ar lein.
- 5.3.12 Fodd bynnag mae rhai o'r gymuned leol yn dangos cenfigen oherwydd bod tŷ Robert wedi derbyn addasiadau wedi eu hariannu gan grant, megis to newydd. Er bod rhai gwelliannau wedi'u hariannu gan grant wedi eu gwobrwyo, mae Robert wedi talu ac ymgymryd llawer o'r gwaith angenrheidiol ei hun.
- 5.3.13 Mae yna ychydig o genfigen gan rhai o'r gymuned oherwydd y ffaith bod Robert wedi dewis rhoi'r gorau i'w waith i fod yn ofalwr sengl, ac yn *“gwneud yn dda ar hyn.”*

Grwpiau cefnogi cymunedol

- 5.3.14 Mae'r cynllun Big House Playhouse NCH yn gweithio'n dda i'r teulu yn mynd a phlant anabl ar deithiau diwrnod yn ogystal â chynnal gweithgareddau a sesiynau cymdeithasol yn wythnosol.
- 5.3.15 Mae Cefnogaeth Teulu Rhondda yn enghraifft arall o sefydliad sy'n cynnig cefnogaeth hanfodol.
- 5.3.16 Mae'r sefydliad Gofalwyr Ifanc yn darparu ac yn rhedeg gweithgareddau cymdeithasol i frodyr neu chwiorydd i blant anabl i'w galluogi i wneud ffrindiau gyda phlant eraill mewn sefyllfaoedd tebyg.
- 5.3.17 Mae'r Ganolfan Dewis ar gyfer Byw Annibynnol ym Mhontypridd yn sefydliad arall mae Robert yn clodfori. Maent yn awdurdodi pobl anabl o fewn ardal Rhondda Cynon Taf drwy eu Cynlluniau Cefnogi Taliadau Uniongyrchol a Gwasanaeth Eiriolaeth.

Gweithgareddau Hamdden

- 5.3.18 Mae Robert a'i blant wedi mwynhau nifer o wyliau gan gynnwys ymweliad ac Ynys Manaw i wylïo'r rasy beiciau modur.
- 5.3.19 Maent wedi ymweld â'r UDA nifer o weithiau ac mae Robert yn dyfynnu cwmni hedfan Virgin fel y cwmni gorau o bell ffordd, o'u criw caban i'w swyddfa cyfleusterau anabl. Roedd yr olaf o hyd yn sicrhau bod seddau addas mewn lle, drwy ddanfôn allan holiadur neu gymryd mesuriadau manwl o anghenion eistedd y plentyn. Mae'r teulu yn aml wedi cael eu huwchraddio i ddosbarth cyntaf er mwyn iddynt gael eistedd gyda'i gilydd.

5.3.20 Mae Robert wedi cael profiadau gwael gyda British Airways a First Choice, gyda'r olaf yn *"methu deall y gofynion ac anghenion yr anabl, a'r effaith mae'n gallu cael."*

5.3.21 Roedd Robert wedi dyfynnu'r gwahaniaeth rhwng llety gwestyau yn y UDA a Chymru yn llethol, gyda phob gwesty yn y UDA yn addasadwy o'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd

5.3.22 Roedd gan y teulu hefyd rhandir lleol lle maent yn tyfu ystod eang o lysiau. Mae hyn yn rhywbeth mae'r plant yn mwynhau ac yn dysgu ohono, ac mae'r cynnyrch helaeth yn cael ei rannu gyda ffrindiau a theulu.

Y Dyfodol

5.3.23 Mae Robert a'u deulu yn ystyried allfudiad i'r UDA, oherwydd ei fod yn teimlo bod yr amgylchedd, y costau byw, cyfleoedd cyflogaeth a'r rhwydweithiau cefnogi yn yr UD yn gorchfygu unrhyw beth a allai gael ei gynnig yng Nghymru.

5.3.24 Mae e'n teimlo bod angen y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig i blant ac oedolion anabl yn y DU gael ei wella er bod deddfwriaeth mewn lle mae'r gwirionedd yn fater gwbl wahanol: *"Mae angen i Brydain ddal i fyny, er enghraifft gyda chyfleusterau a mynediad i gyngherddau cerddorol. Mae angen i'r anabl gael eu hintegreiddio yn gymdeithasol i mewn i fywyd modern Prydain, oherwydd ar hyn o bryd maent yn cael eu heithrio yn gyfan gwbl."*

5.4 Astudiaeth Achos 3- Elen yn Rhyl

Bywyd Cynnar

5.4.1 Mae Elen wedi byw yng Ngogledd Cymru ers 2003. Mae hi yn ei 60au a'r llinynnau cydraddoldeb mae hi'n eu hadnabod yw'r rhai o ryw, hunaniaeth o ran rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol.

5.4.2 Mae ei hunaniaeth rywiol a'i hunaniaeth o ran rhywedd yn rhywbeth mae hi wedi bod yn ei gwestiynu ers ei bywyd cynnar. Mae beth mae hi wedi bod yn meddwl am ei rhywioldeb wedi bod yn rhan bwysig iawn ar hyd ei bywyd ac yn fwy na thebyg y ffordd roedd hi o hyd yn ceisio deall beth oedd wedi troi allan i fod yn gyflwr traws rhywiol. Fe ddywedodd hi: *"Nid oedd gennyf i unrhyw faterion uniongyrchol yn ymwneud ac anhwylder hunaniaeth o ran rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol yn fy effeithio yn fy mywyd cynnar."*

Bywyd personol

5.4.3 Mae gan Elen materion ynglŷn â'r defnydd o'r term anhwylder hunaniaeth o ran rhywedd (gender dysphoria) wrth gael ei defnyddio wrth gyfeirio ati hi, *"fel cyflwr dehongliad mae'r cyflwr wrth achosi trallod i'r sengl yn ac yn ymyrryd gyda'i ffwythiant arferol. Rwyf i byth wedi dioddef yn y ffordd yma wrth fod yn draws rywiol, sef y ffordd roeddwn i'n syml wedi derbyn fy mod wedi cael fy ngwneud."* Mae hi,

fodd bynnag, yn hapus gyda'r term yn cael ei ddefnyddio mewn ystyr ehangach i arwyddocáu bod ei hunaniaeth o ran rhywedd ddim yn gweddu gyda'i rhyw enedigol. *"Yn yr ystyr yma, rwy'n medru byw gydag ef, er nad wyf yn ei ystyried yn yr ystyr yma yn gyflwr meddygol. Sori, ychydig o geffyl pren i mi!"*

5.4.4 Mae Elen yn diffinio ei anhwylddeb hunaniaeth o ran rhywedd fel *"isllif sydd wedi bod yn rhan ohonof drwy fy mywyd.. Rwyf wedi delio gyda fy agwedd o ryw yn y tŷ bach.."* Mae ei phedwar perthynas hir dymor blaenorol i gyd wedi bod gyda menywod. Nid oedd hi'n deall ar y pryd ond yn ystyried wrth ôl-syllu taw ei chyflwr meddygol a arweiniodd i ddirywiad ei pherthnasoedd personol. Roedd e hefyd wedi effeithio ar ei ffrindiau. Roedd hi'n datgan bod *"erbyn iddi sylweddoli ei bod hi'n draws, nid oedd gennyf berthynas ar ôl."*

5.4.5 Mae'r rhan fwyaf o'i theulu yn derbyn ei chyflwr, rhai gydag amheuaeth. Nid yw hi wedi derbyn unrhyw elyniaeth gan ei pherthnasau. Y perthynas sydd ar fwyaf o faterion gydag e yw ei chynwraig, sydd o bosib a chymhellion ei hun am beidio dymuno a chymryd statws trawsrywiol Elen. Hi yw'r un person sydd hefyd yn brin o ymwybyddiaeth lawn o anhwylddeb hunaniaeth o ran rhywedd.

5.4.6 Roedd Elen wedi ei chodi mewn teulu cariadus a hefyd yn annog i fod yn annibynnol ac yn agored. Roedd ei rhieni *"wedi rhoi'r gorau posib."* Mae hyn yn rhywbeth roedd hi wedi ymdrechu i wneud gyda'i phlant hi. Mae hi am ei phlant i fod eu hun gorau sy'n bosib, ac yn datgan taw bod yn hapus ac yn gyffyrddus yw'r bwriad pwysicaf mewn bywyd.

Bywyd gweithio

5.4.7 Nid oedd Elen wedi cyfeirio at ei anhwylddeb hunaniaeth o ran rhywedd tan yn hwyr yn ei bywyd gweithio. Roedd hi'n ystyried hyn i fod ar ddamwain gan ei bod ddim felly yn gorfod ymladd unrhyw anawsterau posib yn y gweithle. Fel person di-cyfwynebiadus doedd hi ddim eisiau tramgwyddo, oherwydd bod rhai pobl yn *"cael eu tristau gan y mater o Draws Rywioldeb."* Nid oedd hi eisiau ymddangos i fod yn mynd allan o'i ffordd i gorddi cyd-weithwyr. Mae hi'n falch o fod yn berson traws rhywiol ond mi fyddai'n gwisgo (fel dyn) i ffitio i mewn gyda'i chydweithwyr.

5.4.8 Mae hi'n gwybod bod gwaith a chyflogaeth yn fater mawr i bobl draws rywiol. Mae ei phartner Jenny-Ann sydd hefyd yn disfforydd rhyw, wedi ei gwneud yn ddi-waith ar bedwar achlysur yn ei bywyd gweithio. Mae Jenny-Ann yn priodoli'r diweithdra hyn, sy'n ymestyn yn ôl i'r 1970au, i agweddau e'u cyflogwyr i'w chyflwr meddygol.

5.4.9 Mae Elen yn rhedeg sesiynau hyfforddi amrywiaeth i'r heddlu yng Ngogledd Cymru a grwpiau eraill gan gynnwys cymdeithasau tai. Mae hi'n cwrdd gyda'r bobl yma yn gymdeithasol yn ogystal ag yn teimlo eu bod *"mor dderbyniol"*. Mae hi'n ennill parch pobl ac yn teimlo bod y fath brofiadau yn gwneud i fod yn draws rywiol yn brofiad bywyd mor gadarnhaol.

Cymuned

5.4.10 Mae Elen, ynghyd a Jenny-Ann, yn weithgar o fewn y gymdeithas draws rywiol. Mae hi'n ysgrifenyddes i'r grŵp cymorth traws rywiol Gogledd Cymru, Unique sy'n cynnal cyfarfodydd misol a digwyddiadau cymdeithasol. Mae ymwelwyr i Unique (sy'n agored i bobl draws rywiol, partneriaid a ffrindiau) yn aml yn sylwi ar gymaint maent yn mwynhau'r cyfarfodydd. Mae Elen yn falch o ethos y grŵp o estyn allan positif.

5.4.11 Mae Elen yn rhyngweithio gyda'r gymuned drawsrywiol ranbarthol ond hefyd yn ceisio ymestyn allan i'r gymuned di-drais yn ogystal. Mae'r rhain yn cynnwys grwpiau yn y cymunedau Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thraws rywiol yn Wrecsam a Chei Connah, a'r Eglwys Gymunedol Fetropolitan ym Manceinion.

5.4.12 Yn eu rôl fel rhan o'r pwyllgor cymdeithasol yr eglwys mae Elen a Jenny-Anne yn ymweld â thai bwyta a bariau newydd yn rheolaidd i sicrhau ei bod yn addas ar gyfer anghenion y grŵp, a sicrhau er enghraifft bod gan fannau cyfarfod mynediad anabl a'u bod yn arlwygo ar gyfer llysieuwyr.

Myned gwasanaethau cyhoeddus

5.4.13 Mae myned gwasanaethau cyhoeddus yn medru darparu anawsterau i bobl draws rywiol sydd heb drawsnewid eu henwau a'u rhyw yn gyfreithiol. Mae angen i Elen fyned rhai gwasanaethau yn ei hunaniaeth wrywaidd gan ei bod hi heb newid ei enw yn gyfreithlon eto. Dwy enghraifft a rhoddodd hi roedd apwyntiadau deintyddol a meddiannu brechiadau teithio yn y ganolfan iechyd.

5.4.14 Mi wnaeth Elen hefyd son am nifer o brofiadau cadarnhaol yn y maes o fyned gwasanaethau cyhoeddus. Un esiampl o hyn oedd y Nationwide Building Society gyfeillgar a deallus o'i hangen i fyned cyfrif cymdeithas adeiladu Unique yn ei phersona benywaidd a gwrywaidd. Mi wnaeth hi sefydlu'r cyfrif yn ei phersona gwrywaidd gan roi enwau benywaidd a gwrywaidd. Mae hi'n arwyddo dogfennaeth cyfrif yn ei henw gwrywaidd ond mi wnaeth Nationwide gytuno i gyfeirio'r holl ohebiaeth iddi yn ei henw benywaidd.

5.4.15 Mae bod a hunaniaeth fenywaidd allanol ond hunaniaeth gyfreithiol wrywaidd yn gallu achosi problemau ymarferol. Er enghraifft weithiau mae Elen yn derbyn sieciau personol wedi'u hysgrifennu i'w henw benywaidd ond nid yw'n medru bancio'r rhain gan fod ei chyfrif banc personol yn ei henw gwrywaidd cyfreithiol yn unig.

Amgylchedd

5.4.16 Gyda chyfeiriad i'r amgylchedd lleol mae hi'n aml yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, yn lleol ac yn genedlaethol, heb hyd yn oed brwydro unrhyw broblemau sy'n perthyn i'w hunaniaeth o ran rhywedd: mae hi'n teimlo fod: *"Mae'r straeon arswydus rydych yn clywed [hynny yw ymosodiadau trawsrywiol] yn aml yn cael eu hachosi gan weithgareddau llai na synhwyrol ar ran y person traws rhywiol. Er*

enghraifft, cwrdd, ac yna mynd gyda rhywun rydych chi newydd ei gwrdd â mewn clwb heb ddweud wrth unrhyw un lle rydych yn mynd a chael eich llofruddio. Yn syml iawn mae'n rhaid i chi ddilyn rheolau cymdeithasol fel unrhyw un arall a pheidio cymryd risgiau."

5.4.17 Mae Elen yn dweud taw'r allwedd i fywyd hapus fel menyw sydd ag anhwylddeb hunaniaeth o ran rhywedd, heb frwydrau diflas, yw gwisgo'n addas ac i geisio ffitio i mewn. Mae cael eich adnabod fel person sydd ag anhwylddeb hunaniaeth o ran rhywedd weithiau yn gallu arwain at statws dyrchafedig. Weithiau mae yna bobl sy'n hoffi bod yn gyfaill a phobl sydd yn wahanol i'r brif ffrwd. Mae menywod genetig yn derbyn Elen gan eu bod nhw *"yn gallu gweld tu hwnt i'r arwyneb."*

5.4.18 Roedd Elen yn hapus i nodi sut mae hi'n brwydro ychydig iawn o ragfarn wrth fynd trwy ei bywyd dyddiol yn Rhyl. Dim ond un math enghraifft roedd hi'n gallu nodi. Roedd hyn gyda grŵp o ddeuddeg ffrind lesbiad, hoyw, deurywiol a thraws rhywiol ym mwyty Pizza Hut yn Blackpool, pan wnaeth y gweinydd nodi nid oeddent yn gallu lletya'r grŵp a'u bod nhw wedi rhedeg allan o bitsas. Yn syml iawn mi aeth y grŵp at fwyty mwy cyfeillgar cyfagos. Yn hwyrach mi wnaeth un o'r grŵp ysgrifennu llythyr o gŵyn at brif swyddfa Pizza Hut.

5.4.19 Mi wnaeth hi hefyd siarad am brofiadau positif mewn bwyta'i eraill. Roedd yna un achlysur wrth giniawa gyda grŵp o ffrindiau mewn tŷ cyrri ym Manceinion fod ciniäwr arall wedi gwneud sylwadau negyddol i'r perchennog am y grŵp, rhywbeth tebyg i *"nid yw pobl eisïau bwyta gyda phobl fel yna"*. Mi wnaeth y perchennog anfon y person sarhaus i ffrwd gan awgrymu dylen nhw ddychwelyd yn hwyrach.

5.4.20 Pan roedd angen i Elen a Jenny-Ann fynd i'r orsaf heddlu lleol ar ôl i gar Jenny-Ann gael ei fandaleiddio dros y flwyddyn newydd yn ogystal â cheir eraill ar y stryd mi wnaeth yr heddlu ei thrin gyda pharch. Roedd yna achlysur arall pan roedd angen iddi alw gwasanaeth torri i lawr cerbydau yn hwyr wrth ochr heol wledig yn Swydd Amwythig. Mi roedd hi gyda rhai ffrindiau traws rhywiol ar y pryd ac ni wnaeth y peiriannydd gwasanaeth achub wneud unrhyw sylwadau o gwbl. Roedd hyn yn brofiad calonogol i Elen.

5.4.21 Mae Elen wedi brwydro cyn lleied o drwbl, yn syml iawn nid yw hi yn awr yn disgwyl y fath driniaeth a fyddai'n *"grac pe fydden i."* Mae hyn i ddiolch yn rhannol i'w *"ymddygiad neis a bod yn gyfeillgar gyda phobl."*

5.4.22 Mi wnaeth hi a Jenny-Anne nodi eu bod nhw yn byw yn y byd go iawn ac yn gwneud yr holl weithgareddau cyffredinol mae angen iddynt wneud megis siopau, mynd i'r sinema a bwyta allan, fel y rhan fwyaf o bobl eraill. Nid yw Elen yn gofyn i'w hun os yw siop yn debygol o fod yn gyfeillgar i bobl drawsrywiol cyn iddi ei ddefnyddio - yn syml mae hi'n tybio y byddai yn cael ei derbyn fel cwsmer.

5.4.23 Eglurodd Elen: *"Rydym yn gwario rhan o'm bywyd i geisio helpu'r gymuned draws rywiol a helpu iddo gael ei dderbyn mwy yn y byd go*

iawn. Rydym yn gwneud ymosodiadau fel gall pobl gael eu derbyn yn ddifater o'u golwg."

- 5.4.24 Fe nododd pwysigrwydd "*bod yn wir i'ch hun a gwneud eich gorau. Rwy'n gwybod beth bynnag fyddaf yn gwneud bod fy unplygrwydd personol yn allweddol.*"

5.5 Astudiaeth Achos 4- Muddassir yng Nghaerdydd

- 5.5.1 Symudodd Muddassir i Gymru ym Mis Mai 2006 o Fryste. Mae ef yn ymofynnwr noddfa yn ei 30au ac ar hyn o bryd yn gweithio i'r Cyngor Ffoaduriaid Cymru fel gwirfoddolwr. Mae ef hefyd yn ymglymedig iawn gyda'r cymunedau Sudanaidd a Darfuri.

Gwasanaethau i'r gymuned ymofynwyr noddfa a ffoaduriaid

- 5.5.2 Mae Muddassir yn gadarnhaol iawn am y gwasanaethau cyhoeddus a gynigwyd i'w gymuned o ymofynwyr noddfa. Mae'n dyfynnu Cyngor Ffoaduriaid Cymru fel esiampl dda, yn cynnig cefnogaeth yn ystod y broses noddfa.

- 5.5.3 Mae'n nodi unwaith eich bod wedi ennill statws ffoadur mae'r Cyngor Ffoaduriaid Cymru yn gallu "*helpu chi i symud ymlaen i dai a gwaith.*"

- 5.5.4 Mi wnaeth egluro sut roedd Cyngor Sir Caerdydd hefyd yn darparu nifer o wasanaethau, sydd yn gallu cynnwys dodrefn sylfaenol i ymofynwyr noddfa pan maent yn derbyn tŷ neu lety.

- 5.5.5 Mae nifer o elusennau ac senglion wedi eu hymglymu'n gadarnhaol gan roi dillad a dodrefn i Gyngor Ffoaduriaid Gymru a'r gymuned.

- 5.5.6 Mae yna rhai anawsterau gyda gofal iechyd oherwydd statws a'r argaeledd cyfyng o ddoctoriaid. Er enghraifft hyd yn oed os yw person yn cael ei roi ar restrau wrth gefn, gall fod arhosiad o bedair awr. Mae pob ymofynnwr noddfa yn cael eu cyfeirio at Glafdy Brenhinol Caerdydd. Mae hi hefyd yn medru cymryd sawl mis i fyned gwasanaethau deintyddol.

Addysg a hyfforddiant

- 5.5.7 Mae Muddassir wedi gallu myned y gwasanaethau addysg a hyfforddiant roedd angen arno. Mae hyn yn cynnwys cyrsiau TG a hyfforddiant galwedigaethol. Fodd bynnag, mae yna faterion mynediad i'r gymuned ehangach. Mae cyrsiau ESOL (Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill) yn angenrheidiol i'r gymuned hone r mwyn galluogi iddynt fyned gwasanaethau ac integreiddio'n llawn i mewn i fywyd yng Nghymru. Mae gan y rhan fwyaf o ymofynwyr noddfa sgiliau Saesneg cyfyng, sydd yn creu nifer o rwystredigaethau yn eu bywydau bob dydd. Ar hyn o bryd mae yna 700 o bobl ar restr aros hyd flwyddyn am gyrsiau ESOL.

- 5.5.8 Mae Muddassir yn gweld y rhwystr iaith fel y mater pwysicaf sydd yn tanategu nifer o agweddau o fywyd i'r gymuned o ymofynwyr noddfa.

Byddai o fudd mawr pe byddai ariannu ESOL yn medru cael ei gynyddu. Mi fyddai hyn yn annog y gymuned Sudanaidd a fyddai'n helpu lleddfu rhai o broblemau ac achosi'r gan Saesneg gwan. Yn ddelfrydol, hoffai weld dechreuad o fwy o gyrïau ESOL a'r hyfforddiant o athrawon ychwanegol, yn ogystal â'r agoriad o ganolfannau lleol i gynnal cyrsiau.

Bywyd personol a gwaith

5.5.9 Mae Muddassir yn gerddor brwd ac yn chwarae'r badell dur Affricanaidd. Mae e'n trafod y pwynt er ei fod yn gallu myned y celfyddydau cerddoriaeth, celf a drama, mae yn fwy anodd i eraill yn y gymuned o ymofynwyr noddfa. Mae'r rhwystrau yn rhai o iaith a gwahaniaethau diwylliannol.

5.5.10 Fel ymofynnwr noddfa nid oes hawl ganddo i chwilio am gyflogaeth daledig, ond wedi cymryd gwaith gwirfoddol yng Nghyngor Ffoaduriaid Cymru yng Nghaerdydd, lle mae'n gweithio'n agos gyda'r cymunedau Sudanaidd a Darfuri.

Cymuned ac Amgylchedd

5.5.11 Mae yna glwb Sudanaidd sy'n cael ei gynnal yn wythnosol i aelodau teulu'r gymuned. Mae'r clwb yn cynnal symposia, siaradwyr gwadd o wahanol gyfundrefnau ac yn cynnal digwyddiadau cymdeithasol a cerddorol.

5.5.12 Ynghyd a mynediad iechyd, pryder mawr i'r gymuned yw mynediad i dai. Nid yw'r system gyfredol yn cynnig dewis i senglion. Yn aml iawn rhoddi'r tai anaddas mewn amodau clos. Efallai byddai'r tŷ yn cynnwys camdrinwyr cyffuriau, lladron neu denantiaid sy'n gwneud sŵn eithafol. Mae amodau yn medru body n annioddefol ac yn fygythiol.

5.5.13 Teimlai Muddassir bod y fath broblemau yn cael eu gwaethygu gan dai a rheolwyd gan sector preifat. Credai fod rhai cwmnïoedd sy'n cael eu gyrru gan elw ddim eisiau gwario arian ar gynnal a chadw. Er enghraifft os yw system gwresogi yn torri i lawr ac mae'r tenant yn adrodd hyn i'r perchennog, mae'r perchennog yn aml yn oedi rhag danfon rhywun i'w drwsio. Byddai tai sector gyhoeddus yn cael eu rhedeg yn llawer gwell.

5.5.14 Ynglŷn â materion megis hiliaeth yn erbyn y gymuned, mae'n teimlo yn gyffredinol yng Nghymru ac yn arbennig yng Nghaerdydd, fod pobl yn oddefgar ac nid yw hiliaeth yn breder mawr. Mae'n ymwybodol bod hyn yn gallu digwydd, ond yn aml mae hyn yn digwydd mewn ffordd fwy anuniongyrchol. Dywedodd *"Mae hiliaeth a rhagfarn yn medru bod ym mhobman, ond mae hynny yn rhan o'ch cymeriad."*

5.5.15 Amlygwyd gan Muddassir bod ceisio integreiddio i mewn i gymdeithas yn flaenoriaeth. Ni does rhaid i hwn fod yn gost o wanhau diwylliant eich hun. Dywedodd *"Rydym yn gwybod fod gan bawb diwylliant ein hun ond mi allwn i gyd fyw mewn cymuned gan ddargadw ein crefydd a diwylliant ein hun. Mae'n rhaid i ni ddysgu'r iaith er mwyn ymdopi gyda'r gymdeithas."*

5.5.16 Nododd Muddassir fod rhai o'r rhwystredigaethau a nodwyd yn wahaniaethau diwylliannol syml rhwng bywyd adref a bywyd yng Nghymru, ac mae'n bosib dysgu'r rhain gydag amser. Dywedodd taw *"Y pethau bach, megis dysgu sut i fod yn foesgar, sut a ble rydych yn rhoi eich sbwriel allan ar gyfer casglu, sylweddoli bod pobl ym Mhrydain yn ffurfio ciwiau, tra adref, mae anhrefn."*

5.5.17 Mae yna wahaniaethau mewn beth a ystyriwyd yn dderbyniol yn gymdeithasol yn y ddwy gymuned wahanol, megis amser y dydd rydych yn cwrdd â theulu a ffrindiau. *"Wrth alw ar bobl yn eu cartrefi mae'n rhaid i chi fynd i'w cartrefi unrhyw ddydd neu nos, ond yma fe allwch ddim ond alw ar amserau penodol o'r dydd."*

Gwelliannau gwasanaeth i'r dyfodol

5.5.18 Mae'r amser maith a allay gymryd i achosion ymofynwyr noddfa gael eu datrys yn rhywbeth hoffai Muddassir weld yn cael eu gwella. Er ei fod yn derbyn arian gan y llywodraeth yn ystod yr adeg hon, mae hi'n rhwystr mawr methu chwilio am waith sy'n talu tan ei fod yn derbyn statws ffoadur. Fe hoffai weld bod ymofynwyr noddfa yn medru gwneud cais am drwyddedau gweithio i wrthweithio hyn.

5.5.19 Dywedodd gall yr arhosiad hir bara am fwy na tair blynedd a threuliwyd yr amser hwn *"yn aros heb ennill swydd. Rydwyf yn teimlo fel fy mod yn cael fy mwydo a llwy. Fe hoffwn allu cymryd gofal o fy hun ac rwy'n teimlo'n gyfyngedig wrth beidio cael yr hawl i weithio. Byddai hynny yn rhoi rhyddid llawn i mi."*

5.5.20 Mae'n nodi sut mae'r boblogaeth ffoaduriaid ac ymofynwyr noddfa yn mynd i fod yn rhan o'r gymuned Gymreig ac yn pendroni ar sut mor bwysig y bydd hi iddyn nhw i integreiddio i mewn i'r gymuned hynny. *"Bydd holl blant y ffoaduriaid yn Brydeinig ac ni hoffwn weld y fath sefyllfaoedd yn codi fel y rhai yn Ffrainc a Holland [h.y. aflonyddwch yn 2006 a 2007 rhwng y poblogaethau o ffoaduriaid]. Mae'n rhaid i'r plant teimlo yn gyfartal yna ni fyddant yn teimlo ar wahân yn eu cymunedau yn hwyrach yn eu bywydau, trwy hyn ni fyddai gwrthdrawiad sifil, crefyddol, neu gymdeithasol. Byddai anwybyddu'r gymuned nawr yn effeithio ar gymuned yfory; felly mae angen cymryd gofal o'r cymunedau sydd gennym heddiw."*

5.5.21 Mae Muddassir yn ddiolchgar iawn i'r hawliau democrataidd ac iawnderau dynol yn y DU mae ef a'i ymofynwyr noddfa, ffoaduriaid a gweithwyr mudol arall yn profi, a'r amddiffyniad yn ddifater o grefydd eu cefndiroedd diwylliannol. Mae'n dweud bod y teimlad o ryddid yn y DU mewn cyferbyniad o ddod o ardal lle rydych yn teimlo'n *"is-ddynol ac yn methu dweud unrhyw beth. Rydw i'n gwerthfawrogi'r ddemocratiaeth a'r rhyddid i siarad yn y wlad hon; i allu mynegi eich hun heb wrthdaro neu drais."*

Astudiaeth Achos 5 - Christine yng Ngwent

Symud i Gymru

- 5.6.1 Ganwyd a magwyd Christine yn Brighton. Yn 18 mlwydd oed mi wnaeth hi ymuno a'r ffydd Bahá'í. Yn 22 mlwydd oed mi wnaeth y Bahá gofyn iddi symud i Gymru gan taw nifer bach o bobl Bahá'í oedd yn byw yng Nghymru. Roedd chwaer Christine wedi symud i goleg yng Nghymru pryd hynny ac roedd ei mam o Gymru'n wreiddiol. Mi wnaeth hi symud ac mae hi wedi byw yma ers hynny.

Profiadau addysg

- 5.6.2 Yn yr ysgol mi wnaeth Christine frwydro gyda mathemateg wnaeth ei hatal hatal rhag dewis ei gyrfa ffafriol. "Pe byddem yn yr ysgol yn awr, mi fydden i siwr o fod yn fy nghyfrif i fel un ag amhariad mathemategol siŵr ac yn derbyn cefnogaeth ychwanegol".
- 5.6.3 Pan symudodd hi i Gymru mi wnaeth hi ystyried ymgymryd cwrs hyfforddiant athro fel myfyriwr aeddfed ond roedd hi'n pryderu am y lefel o fewnbwn a fyddai'n ofynnol i oresgyn ei heriau gyda mathemateg. Mi wnaeth hi esbonio am heriau addysgiadol. "Mae'n gallu fod yn her i fenywod sydd yn ceisio magu teuluoedd a datblygu eu hunain ar yr un pryd".
- 5.6.4 Mi wnaeth Christine fodd bynnag ymgymryd dosbarthiadau nos yn arwyddiaith a Chymraeg. Ei phrif gymhellant i ddysgu Cymraeg oedd fel bod y gallu ganddi i siarad â phobl sy'n siarad Cymraeg am eu ffydd yn eu hiaith gyntaf. Nid oedd hi'n hapus gyda'r ffocws ar arholiadau yn y coleg. "Mi wnaethon nhw wthio achrediad ac arholiadau ac roedden i am siarad Cymraeg ymddiddanol."
- 5.6.5 Ffilmiwyd Christine a'i theulu ar gyfer rhaglen ddogfen oedd yn rhan o gyfres i S4C am ffydd wahanol yng Nghymru. Roedd Christine yn gallu defnyddio'r Gymraeg wnaeth hi ddysgu i'r ffilmio.
- 5.6.6 Mae gan y ffydd Bahá'í ddiwrnodau gŵyl lle mae rhaid i gredwyr oedi gwaith ac addysg. Nid oedd unrhyw gydnabyddiaeth o hyn i blant Christine yn eu hysgolion. Mae hyn yn fater mae hi wedi codi yng Nghyngor Aml-ffydd Cymru lle mae hi'n aelod.
- 5.6.7 Mae Christine yn eistedd i'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog am Addysg Grefyddol. Mae pob ardal yn cytuno ar faes llafur ei hun felly mae yna cryn ddisgresiwn. Mae crefyddau eraill yn dechrau cael eu cynnwys mewn rhai ardaloedd ond yn eraill mae yna dueddiad i gynnwys crefyddau sydd yn cael eu cynrychioli yn yr ysgol ar y maes llafur am Addysg Grefyddol.
- 5.6.8 Roedd Christine wedi'i gwrthod rhag eistedd ar y Grŵp Ymgynghorol Sefydlog i ddechrau ond dywedodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol dylai'r penderfyniad hon gael ei ail-ystyried. *"Yn un ardal ni gall ffydd cael eu cynrychioli ar y Grŵp Ymgynghorol Sefydlog oni bai eu bod nhw'n rhan o grefydd sefydledig ac er mwyn fod yn sefydledig"*

mae'n rhaid i chi gael adeilad. Mae hyn yn gwahardd rhai grwpiau sydd wedi bod yn yr ardal ers sbel ond sydd heb adeilad'.

- 5.6.9 Dywedodd Christine er tra bod naw crefydd wedi'i adnabod yn swyddogol yn Lloegr, yng Nghymru saith crefydd yn unig sydd yn cael eu hadnabod a Bahá'í yw un o'r crefyddau hynny sydd ddim yn cael eu hadnabod yng Nghymru. *"Dylai Cynulliad Cymru adnabod bob ffydd a'u hadnabod a'u trin yn hafal."*

Bywyd teuluol

- 5.6.10 Mae Christine yn rhiant maeth. Am gyfnodau byr mae hi wedi maethu dau o blant oedd yn ymofynwyr noddfa heb gwmni. Nid oedd un o'r ddau wedi disgwyl cael eu lleoli yn y cymoedd a theimlai'r ddau'n unig.
- 5.6.11 Wedi'i gyrru'n rhannol gan y profiadau hyn mi wnaeth Christine a'i theulu sefydlu grŵp cyfeillgarwch rhyngwladol wedi'i anelu at gynnig cefnogaeth i ffoaduriaid, ymofynwyr noddfa a gweithwyr mudol sy'n byw yn yr ardal. Sefydlwyd y grŵp hwn mewn cydweithrediad gyda Grant Cymunedau'n Gyntaf a'r canolfan cymuned leol.
- 5.6.12 Mae'r grŵp wedi gofyn i'w Aelod Seneddol am wybodaeth am y nifer o weithwyr mudol, ymofynwyr noddfa a ffoaduriaid ond mae'n ymddangos nad oes unrhyw wybodaeth ar gael.

Crefydd a ffydd

- 5.6.13 Mae Christine yn teimlo fod pobl yng ngwledydd eraill yn llawer mwy agored ac yn fodlon siarad am eu credoau crefyddol ond fod y diwylliant yn y DU yn ffocysu ar bethau arwynebol ac i beidio gofyn cwestiynau neu siarad am grefydd a ffydd. *"Nid yw pobl yn agored am eu ffydd yma, maent yn ffocysu ar bethau materol ac nid ydynt yn siarad am y cwestiynau fwy a meddwl am y darlun ehangach."*
- 5.6.14 Dywedodd Christine fod yna llawer o fuddion o fyw ymysg diwylliannau amrywiol *"Roedd arfer fod llawer o bobl Iddewig yn byw yn y cymoedd Cymreig ac roeddent yn cael eu bygwth allan ac mi wnaethon nhw gymryd eu cyfoeth gyda nhw - efallai fyddai'r cymoedd yn fwy manteisiol os fydden nhw dal yma. Mae gan wahanol grefyddau a diwylliannau llawer i gynnig i'w gilydd."*
- 5.6.15 Mae Christine yn teimlo fod yna diffyg o ymrwymiad gwleidyddol i faterion ffydd. *"Mae materion ffydd yn tueddu cael eu rhoi i un ochr - mae rhai Aelodau'r Cynulliad eisiau i grefydd i farw."*
- 5.6.16 Mae Christine yn aelod o'r Cyngor Rhyng-ffydd i Gymru ac yn eistedd ar gyfarfod fforwm a fynychwyd gan Rhodri Morgan. *"Mae hyn yn fenter wych i allu siarad â'r Prif Weinidog, ond nid ydw i'n sicr o beth sydd yn ffiltro i'r adrannau a beth sydd yn newid o ganlyniad i'r fforwm hon."* Mae'r fforwm a'r Cyngor Rhyng-ffydd yn newydd ac felly efallai bod hi'n rhy gynnar i feirniadu.
- 5.6.17 Dywedodd Christine fod pethau'n newid yn araf iawn yng Nghymru (yn enwedig yn y cymoedd). *"Rydw i wedi mwynhau byw yng Nghymru"*

ond hoffwn i os fyddai pobl yn agor eu llygaid. Mae'r byd wedi symud ymlaen a tra bod pethau'n newid yma mae hi ond yn digwydd yn araf bach."

5.7 Astudiaeth Achos 6 - Jo yng Nghaerdydd

Symud i Gymru

5.7.1 Magwyd Jo fel teithiwr. Roedd ei theulu'n byw yng ngharafán yn Swydd Amwythig. Mi aeth y plant i ysgol yn Swydd Amwythig (Shropshire) ac yn ystod misoedd yr haf mi wnaeth y teulu trafaelu o amgylch y DU ac roeddent yn ymweld â Chymru'n aml. Pan roedd y teulu'n trafaelu mi roedden nhw'n aros wrth ochr heolydd.

5.7.2 Roedd y ffordd o fyw carafán hyn yn troi'n fwy a fwy anodd wrth i ddeddfwriaeth lleihau hawliau Trafaelwyr i aros wrth ochr heolydd ac roedd hyn wedi newid patrymau o drafael. *"Mi wnaeth y ddeddfwriaeth mathru ein cymuned. Roedd fy mhlentyndod wedi'i nodweddu gan ymyriad gan yr heddlu."*

5.7.3 Dechreuodd teulu Jo trafaelu ymhellach i ffwrdd i Ffrainc a Sbaen oherwydd anawsterau trafaelu yn y DU. Symudodd Jo i Gaerdydd yn 18 i fynd i Brifysgol.

Profiadau addysg

5.7.4 Cafodd Jo ei bwllian yn yr ysgol oherwydd ei bod hi'n Deithwraig. *"Mae'n anodd pan mae pawb yn eich casáu ac mae hi'n gwneud hi'n anodd iawn i dderbyn addysg sef y rheswm pam mae gymaint o rieni tu fewn y gymuned Teithio'n penderfynu addysgu'u plant adref."*

5.7.5 Roedd Jo yn ddisglair ac roedd ganddi athro da ond erbyn iddi droi'n oedolyn ifanc dechreuodd datgywedd o'r ysgol ac nid oedd hi'n gallu cyflawni'u photensial gyda'i graddau. Mi roedd hi'n gweld hi'n anodd gwneud ffrindiau ac i integreiddio ac erbyn roedd hi'n 14 roedd ganddi lefel o hunan barch isel iawn a dechreuodd niweidio'i hun.

5.7.6 Roedd hi'n iawn yn ystod cyfnodau pan oedd y teulu'n trafaelu ond roedd hi'n gweld y cyfnodau mwy sefydlog yn yr ysgol yn anodd iawn. Fodd bynnag mi wnaeth hi lwyddo i droi pethau ar ei ben gan ennill 4 Lefel A ar radd 'A' a lle ym Mhrifysgol Caerdydd.

5.7.7 Roedd Jo'n gweld bywyd prifysgol yn heriol iawn o bersbectif diwylliannol a hefyd yn ariannol. *"Roedd Prifysgol yn fwy anodd nag ysgol. Roedden i'n ddibynnol iawn ar fenthyciadau ac mi wnes i ddarganfod nid oedden i'n gallu integreiddio gyda ffordd o fyw myfyrwyr."*

5.7.8 Nid oedd hi'n teimlo fel ei bod hi'n 'ffitio mewn' ac roedd hi'n teimlo'n unig wrth fyw i ffwrdd o'i theulu. Roedd rhaid iddi gymryd flwyddyn allan o brifysgol oherwydd problemau iechyd meddwl ond roedd y Brifysgol yn gefnogol iawn o hyn. *"Roedd y brifysgol yn wych - mi wnaethon nhw dal fy lle ar y cwrs a rhoi llawer o gefnogaeth i mi yn*

enwedig gydag eistedd arholiadau. Roedden i'n gallu eistedd arholiadau mewn ystafell ar ben fy hun." Roedd ei chwrs yn cynnwys llawer o astudiaeth annibynnol wnaeth ei gweddu ac mi wnaeth hi weithio'n dda a llwyddo.

- 5.7.9 Hoffai Jo mynd nôl i goleg i astudio ym mhrifysgol am PhD ond ni fyddai'n bosib yn ariannol iddi gan fod ganddi ddyled sylweddol yn barod, a fyddai grant neu fwrsariaeth yn annhebygol. Hoffai weithio mewn sefyllfa academiaidd. Mae'n meddwl fod amgylcheddau academiaidd yn debygol o gael eu dominyddu gan bobl sydd yn wyn neu o ddosbarth canol ac mi wnaeth hi sylwi fod pobl o gefndiroedd gwahanol yn gallu cynnig persbectif gwahanol.

Iechyd ac anabledd

- 5.7.10 Mi wnaeth iechyd meddwl Jo gwaethygu tra yn y Brifysgol. Mi wnaeth hi weld byw yn ystafell fach tra yn y brifysgol yn anodd iawn ar ôl byw yng ngharafán. Mi wnaeth hi hefyd gweld byw mewn llety cyfrannol yn ingol iawn. *"Mi wnes i droi'n bryderus ac ni fydden i'n mynd tu allan."*
- 5.7.11 Am flwyddyn wnaeth Jo cymryd flwyddyn allan o brifysgol ac am nifer o fisoedd mi wnaeth hi fynychu ysbyty seiciatrig fel claf un dydd yn dioddef o iselder clinigol ac anhwylderau pryder. Mi wnaeth Jo gweld therapi ymddygiadol gwybyddol yn ddefnyddiol iawn. Mae'n credu ei bod hi'n bwysig iawn fod therapiau'n cael eu defnyddio i drin cyflyrau iechyd meddwl ac nid meddyginiaeth yn unig.
- 5.7.12 Mi wnaeth Jo dweud ei bod hi'n gallu fod yn anodd myned gwasanaethau iechyd meddwl ar yr amser cywir. *"Mae yna dueddiad fod rhaid i chi fod yn sâl iawn cyn gwnaeth gwasanaethau eich gweld chi. Roedd angen cynghori colled arna i ac roedd rhaid i fi aros chwe mis amdano."*
- 5.7.13 Mi wnaeth Jo hefyd sylwi fod gwasanaethau iechyd meddwl wedi'i deilwra'n gyffredinol i bobl sydd yn anghyflogedig ac mae'n gallu fod yn anodd myned y gwasanaethau wrth weithio. *"Roedd llawer o gefnogaeth ar gael i mi pan nad oeddw'n i mewn cyflogaeth ond mae hyn i gyd yn newid pan fyddwch chi'n gweithio."*

Bywyd gwaith

- 5.7.14 I ddechrau roedd Jo'n gweld hi'n anodd cael swydd oherwydd ei hanes iechyd meddwl. Roedd ganddi swydd ingol ac am sbel nid oedd hi'n gallu ymdopi. Wedi hyn mi wnaeth hi ddarganfod ni fyddai cyflogwyr a diddordeb pan roedd hi'n onest am ei iechyd yng ngheisiadau am swydd. Mi wnaeth hi gymryd swyddi 'dros dro' am sbel ac roedd hi'n teimlo fod hyn yn rheoladwy gan ei bod hi'n gallu ymdopi am sbel ac yn cymryd toriad a symud ymlaen ond roedd y tâl yn wael.
- 5.7.15 Mae Jo nawr yn gweithio i awdurdod lleol. Mae hi wedi darganfod ei fod nhw'n dda ar y cyfan gyda chyfleoedd cyfartal er mae'n rhaid iddi gymryd caniatâd i fynd i apwyntiadau meddygol. *"Nid ydyn nhw'n darparu gwefus-wasanaeth yn unig i faterion o gydraddoldeb"*

- 5.7.16** Maen nhw wedi bod yn gefnogol am faterion iechyd meddwl ond nid yw hi'n teimlo ei bod hi'n gallu dweud wrth bobl yn y gweithle am ei chefnidir trafaelu. *"Mae gan bobl llawer o gasineb tuag at Deithwyr ac felly dwi'n gweld hi'n anodd fod yn onest am fy nghefnidir. Mae' cyfryngau'n bytholi'r broblem ac nad oes unrhyw un yn codi ei llais ac amddiffyn Teithwyr. Mae pobl yn gweld Teithwyr fel un grŵp ac nad ydynt yn tueddu sylweddoli fod yna amrywiaeth sylweddol tu fewn y cymunedau o deithwyr."*

Tai

- 5.7.17** Mae gan Jo cyflog isel ac yn byw mewn lle ar rent. Nid yw hi'n meddwl fod hi'n debygol bod hi'n mynd i allu fforddio prynu lle ar ben ei hun na fynediad i dai cymdeithasol. *"Hoffwn i gael tŷ Cymdeithas Tai - fyddai'n gwneud fy mywyd gymaint yn well ond mae angen fod problemau lluosog arnoch chi i fod a chyfle."*

